

# Prif Arolygydd Carchardai EF dros Gymru a Lloegr

## Adroddiad Blynyddol 2023–24



HC 218

# Prif Arolygydd Carchardai EF dros Gymru a Lloegr

## Adroddiad Blynyddol 2023–24

Am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 5A o Ddeddf Carchardai 1952

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 10 Medi 2024

HC 218

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/**

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: **www.gov.uk/official-documents** ac yn **hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn: **hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gov.uk**

ISBN: 978-1-5286-4795-3
E03105260 09/24

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad gan y Prif Arolygydd Carchardai | | 2 |
| Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud | | 6 |
| Crynodeb o'r flwyddyn | | 8 |
| Un | Carchardai oedolion – yn fwyfwy ansefydlog ac yn methu â pharatoi carcharorion ar gyfer eu dychweliad i'r gymuned | 16 |
| Dau | Plant yn y carchar – Diffyg cyfeiriad, dirywiad a methiannau | 42 |
| Tri | Dalfeydd y llysoedd yn parhau'n ddiogel, ond gwan yw'r cynllunio ar gyfer rhyddhau | 48 |
| Pedwar | Aflonyddwch cynyddol mewn dalfeydd mewnfudo | 51 |
| Pump | Incwm a gwariant | 55 |
| Chwech | Atodiadau | 57 |
| | Adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 | 58 |
| | Adnoddau a chyfeiriadau pellach | 61 |
| | Rhestr termau | 62 |

# Cyflwyniad

## gan y Prif Arolygydd Carchardai



**Cynnydd o 3,497 ym mhoblogaeth y carchardai yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024 – 4% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol – a diffyg o ran y lleoedd sydd ar gael – dyna'r prif ffeithiau sy'n gefndir i'r adroddiad hwn, y gohiriwyd ei gyhoeddi o fis Gorffennaf i fis Medi o ganlyniad i gynnal yr Etholiad Cyffredinol. Er bod y cynnydd hwn wedi'i rag-weld er 2018, mae'r naill lywodraeth ar ôl y llall wedi methu ag adeiladu digon o gapasiti i gadw'n wastad. Prif achosion y pwysau poblogaeth oedd cynnydd sylweddol yn nifer y carcharorion ar remánd a'r duedd a ddechreuodd yn y 1990au i roi dedfrydau hirach o garchar. Mae'r hanes am ddarganfod nwy Radon yng ngharchar Dartmoor a RAAC (concrit awyredig) yng ngharchar Northumberland yn dangos pam yn union y mae'r gwasanaeth carchardai yn gorfod cadw digon o leoedd dros ben wrth gynllunio capasiti, ond gwelwyd nad yw hyn yn bosibl. Roedd cynllun y llywodraeth flaenorol ar gyfer rhyddhau carcharorion yn gynnar wedi lleddfu rhai o'r pwysau dros dro ond nid oedd wedi datrys y broblem.**

Roedd y cynnydd yn nifer y carcharorion wedi effeithio ar bob rhan o'r ystad. Mewn carchardai derbyn, roedd cyfrannau sylweddol o'r boblogaeth ar remánd a chyn gynted ag y cafodd carcharorion eu dedfrydu fe'u trosglwyddwyd oddi yno hyd yn oed os mai ychydig o wythnosau oedd hyd eu dedfryd. Oherwydd y mynd a dod parhaus a chynyddol yn y sefydliadau gorlawn, bregus hyn, nifer ohonynt yn fwy na 100 mlwydd oed, roedd staff o dan bwysau aruthrol i gadw'r gyfundrefn yn rhedeg. Felly roedd y perthnasoedd rhwng swyddogion a charcharorion yn rhai systematig yn aml ac roedd perygl o hyd na fyddai carcharorion agored i niwed yn dod i sylw neu'n cael cymorth digonol.

Y cyfuniad o dwf yn y boblogaeth a phrinder staff oedd wrth wraidd y tri Hysbysiad Brys a roddais eleni ar gyfer carchardai Woodhill, Bryste a Bedford yn yr ystad oedolion. Roedd y ddau olaf wedi dod o dan y mesur hwn, sydd heb ei ddefnyddio'n aml, yn y gorffennol felly roedd yn siomedig dros ben nad oedd y gwasanaeth carchardai wedi gwneud mwy i gefnogi'r carchardai bach lleol hyn sydd yn orlawn ac yn dadfeilio.

Roedd recriwtio'n waith anodd o hyd mewn rhai rhannau o'r wlad. Yng ngharchardai Swaleside a Woodhill, dibynnwyd ar swyddogion a gludwyd i mewn o ogledd Lloegr i allu rhedeg y gyfundrefn. Hyd yn oed lle'r oedd digon o swyddogion, roeddent yn aml yn rhai dibrofiad iawn ac roedd y nifer uchel o staff a adawai o fewn y ddwy flynedd gyntaf yn peri pryder o hyd.

Fel y gellid disgwyl efallai, oherwydd lefelau'r gorlenwi a phrinder swyddogion profiadol, mae'r prif ddangosyddion ar gyfer diogelwch ein carchardai, fel cyfraddau'r ymosodiadau a'r achosion o hunan-niweidio a hunanladdiad, i gyd wedi aros yn uchel neu wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y cyffuriau a ddeuai i mewn dros y wal neu drwy'r gât yn arwain yn aml at drais, bwlio a dyled. Mae carchardai yn farchnadoedd proffidiol i gangiau troseddu cyfundrefnol ac nid oedd y camau i gyfyngu'r cyflenwad drwy fesurau diogeledd cadarn yn ddigon da eto mewn nifer o garchardai.

Mae rheoli'r galw yr un mor bwysig ac er ein bod yn croesawu'r ffaith bod adeiniau byw heb sylweddau dan gymhelliant (ISFL) wedi'u cyflwyno, anaml y gwelwn y mathau o waith grŵp dwys, trawsnewidiol sydd ei angen i helpu defnyddwyr cyffuriau i weddnewid eu bywydau. Er enghraifft, roedd Narcotics Anonymous yn rhedeg cyfarfodydd mewn llai o garchardai nag yr oedd cyn y pandemig.

O'r 32 o garchardai caeedig a arolygwyd gennym y flwyddyn hon, dim ond dau a gafodd sgôr 'da' neu 'weddol dda' yn ein prawf gweithgarwch pwrpasol. Roedd ein cymheiriaid yn Ofsted yn parhau i adrodd bod y ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant yng ngharchardai Lloegr yn wael iawn a bod lefel y presenoldeb mewn dosbarthiadau yn aml yn syfrdanol o isel. Mae'r gwasanaeth carchardai wedi methu'n lân â rhoi digon o sylw i'r ffordd y mae carcharorion yn treulio eu hamser, gan adael i'r sefyllfa arswydus hon barhau. Roedd gormod o lawer o garcharorion yn dal i gael eu cloi yn eu celloedd heb ddim byd buddiol i'w wneud a phrin ei bod yn syndod bod diflastod o'r fath yn cyfrannu'n aml at y ffaith bod nifer mawr ohonynt yn cymryd cyffuriau. Er i ni weld cyflwyno strategaethau darllen yn y rhan fwyaf o'r carchardai, bach iawn fu'r effaith ac nid oedd darparwyr addysg yn gwneud digon eto dros y carcharorion hynny oedd â'r angen mwyaf am help. Aeth wyth mlynedd heibio bellach ers i'r Fonesig Sally Coates gwblhau ei hadolygiad o addysg mewn carchardai a digalon yw nodi bod cyn lleied o newid.

Yn yr ystad menywod, cynhaliwyd dau arolygiad o'r ddau garchar agored, Askham Grange ac East Sutton Park, lle cafwyd canfyddiadau cadarnhaol iawn ac un arolygiad o garchar Peterborough lle rhoddwyd sgôr weddol dda. Roedd y ddau garchar agored yn gweithio'n effeithiol fel pont yn ôl i'r gymuned i fenywod, rhai ohonynt yn dod i ddiwedd dedfrydau hir. Mewn adolygiad annibynnol o gynnydd yn Eastwood Park, lle'r oeddem wedi dychwelyd ar ôl cynnal arolygiad yn Hydref 2022 a oedd wedi peri pryder, dangoswyd bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, er bod lefelau'r hunan-niweidio a thrais yn y fan honno ac mewn mannau eraill yn yr ystad yn aros yn frawychus o uchel. Mae rhagor o waith i'w wneud gan y tîm canolog wrth ystyried y ffordd orau i gynorthwyo'r menywod hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac mae angen gwell hyfforddiant ar gyfer staff.

Rhoddwyd Hysbysiad Brys ar gyfer sefydliad troseddwyr ifanc Cookham Wood o ganlyniad i weld enghraifft fwy eithafol o'r hyn a welsom yn y tri sefydliad troseddwyr ifanc yn y sector cyhoeddus a arolygwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd lefelau'r trais yn uchel; roedd rhestrau 'cadw ar wahân' cymhleth i atal grwpiau o blant rhag cymysgu, a hynny wedi arwain at redeg nifer o gyfundrefnau gwahanol yn yr un adain; roedd plant yn wynebu cyfnodau hir o gael eu cadw dan glo; ac roedd y ddarpariaeth addysg yn wael. Roedd y defnydd o wahanu yn Cookham Wood yn peri pryder mawr iawn, lle'r oedd dau fachgen wedi'u dal yn yr hyn yr oeddem wedi'i alw'n 'garchariad unigol' am fwy na 100 diwrnod. Roedd sefydliad troseddwyr ifanc Parc, sy'n cael ei redeg yn breifat, yn eithriad o hyd ac yn parhau i fod yn sefydliad mwy diogel a mwy gweddus. Mae'n anochel y bydd addasu safle Cookham Wood i fod yn garchar oedolion yn cynyddu'r pwysau mewn rhannau eraill o'r ystad ieuenctid.

Er gwaethaf yr heriau niferus, gwelsom fod rhai carchardai yn llwyddo i fod yn ddiogel, yn weddus ac yn gynhyrchiol. Roedd ein harolygiadau o saith carchar agored y flwyddyn hon yn amlygu rhan o'r ystad a oedd yn perfformio'n dda at ei gilydd, tra oedd adroddiadau ar garchardai Preston, Abertawe a Chaerlŷr yn dangos bod hyd yn oed y carchardai derbyn Fictoraidd mwyaf gorlawn yn gallu bod yn ddiogel a gweddus. Roedd carchardai i ddynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol hefyd yn gwneud yn weddol dda, er nad oedd y gweithgarwch buddiol yn ddigon da yn yr un ohonynt.

Fel y gellid disgwyl, roedd arweinyddiaeth dda yn elfen hanfodol yn llwyddiant y carchardai gorau lle byddai llywodraethwyr yn cerdded yr adeiniau, yn gwrando ar garcharorion a staff, yn defnyddio data yn effeithiol, yn gosod blaenoriaethau clir, yn monitro cynnydd ac yn delio â pherfformiad gwael. Yn Swaleside, Huntercombe, Morton Hall a Moorland, roedd arweinwyr effeithiol yn hyrwyddo gwelliannau.

Er hynny, roeddent yn gweithredu o fewn system a oedd yn aml yn gweithio yn eu herbyn i bob golwg. Roedd nifer wedi sôn am dreulio oriau hir yn llafurio drwy brosesau adnoddau dynol astrus, tra oedd galwadau mynych am wybodaeth o'r canol hefyd yn dreth ar eu hamser. Er bod symiau mawr o arian yn cael eu gwario ar adeiladu carchardai newydd neu gelloedd yn y carchardai presennol, roedd ein hadroddiadau'n dangos yn gyson fod problemau o ran seilwaith y carchardai ac ystad a oedd yn mynd yn fwyfwy dadfeiliedig.

Byddaf yn pryderu am nifer y rheini sy'n ymgeisio o'r newydd i fod yn llywodraethwyr, gan mai ychydig iawn o ymgeiswyr a geir ar gyfer rhai o'r carchardai mwyaf heriol. Roedd diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol i arweinwyr, ac roeddem wedi cwrdd ag un grŵp o reolwyr dalfeydd a ddywedodd eu bod heb gael unrhyw hyfforddiant i wneud eu swydd, er bod rhai ohonynt yn rheoli hyd at 20 o swyddogion.

Carchar Lowdham Grange oedd y carchar cyntaf dan gontract i gael ei drosglwyddo rhwng darparwyr (Serco i Sodexo), ond roedd y broses yn ddi-drefn. Roedd nifer o staff wedi gadael y carchar i weithio yng ngharchar newydd Serco yn Fosse Way, a methodd Sodexo â recriwtio digon yn eu lle. Mewn fawr o dro, roedd carchar a fu'n weddol dda yn y gorffennol wedi dirywio, gyda lefelau uchel o drais, cyffuriau'n bla a nemor ddim gweithgarwch pwrpasol. Nid oedd dewis gan y gwasanaeth carchardai ond cymryd y carchar drosodd yn Rhagfyr 2023 er mwyn adfer sefydlogrwydd.

Yn ein harolygiadau o ddalfeydd mewnfudo, mynegwyd gofid am y cynnydd mewn aflonyddwch wrth i'r boblogaeth dyfu, testun pryder neilltuol mewn ystad a fu'n dawel gan mwyaf dros y degawd diwethaf. Yn Yarl's Wood, gwelsom fod yr amodau'n ymdebygu fwyfwy i'r rheini mewn carchardai, ac roedd diogelwch y rheini dan gadwad a'u mynediad at weithgareddau wedi dirywio'n sylweddol. Gan fod cyfran mor fawr o'r rheini dan gadwad wedi cael eu rhyddhau i'r gymuned, nid yw'n glir pam roedd cynifer ohonynt yno yn y lle cyntaf, yn enwedig lle nad oedd posibilrwydd rhesymol o'u hallgludo. Yn aml, roedd penderfynu enbyd o araf gan y Swyddfa Gartref wedi dwysáu gorbryder ymysg y rheini dan gadwad. Bydd yr Arolygiaeth yn parhau i gadw golwg manwl ar yr holl ddatblygiadau yn y maes hwn, lle mae newidiadau'n digwydd yn gyflym, yn enwedig ar yr effaith o ddeddfwriaeth newydd bosibl.

Mae adroddiadau ar arolygiadau o ddalfeydd y llysoedd wedi dangos eto fod ynddynt staff rhadlon sy'n gwneud eu gorau wrth weithio'n aml mewn celloedd tanddaearol, moel. Cafwyd rhai gwelliannau nodedig yn y cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau ac mewn gwasanaethau iechyd ar y safle, er bod rhai trefniadau ar gyfer rhyddhau pobl dan gadwad yn dal i beri pryder i ni.

Mae gweinidogion newydd eisoes wedi gwneud penderfyniadau brys ynghylch poblogaeth y carchardai, a byddant yn gorfod gwneud hynny eto yn y dyfodol. Gan fod rhagolwg y bydd nifer y carcharorion yn tyfu cymaint â 27,000 erbyn 2028, nid yw'n debygol y bydd modd adeiladu digon o lety newydd. Mae'r rhan fwyaf o garchardai eisoes yn methu â rhoi digon i'w wneud i'w carcharorion ac mae'n debygol y bydd cynnydd yn y boblogaeth yn gwneud pethau'n waeth. Os bydd carcharorion yn gadael y carchar heb ddysgu'r sgiliau a'r arferion i'w helpu i gadw swydd, os nad ydynt yn cael eu dysgu i ddarllen, os gwerthir cyffuriau iddynt heb fod cymorth ar gael i dorri eu dibyniaeth ac os byddant yn parhau i fyw mewn amgylcheddau lle mae trais yn gyffredin, bydd carchardai yn methu â chyflawni eu dyletswydd i atal aildroseddu yn y dyfodol. Yn ogystal â gweithredu pendant yn y tymor byr, mae angen dirfawr am gynnal sgwrs ehangach o lawer ynghylch pwy rydym yn eu hanfon i'r carchar, am ba hyd a beth rydym am i garcharorion ei wneud tra byddant yno. Ar wahân i bwysau poblogaeth y carchardai, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau allweddol eraill, yn cynnwys y trefniadau cyfredol ar gyfer carcharorion IPP a hynt y Bil Iechyd Meddwl arfaethedig a oedd wedi'i gynnwys yn Araith y Brenin ym mis Gorffennaf.

Rwyf am orffen drwy dalu teyrnged i'm tîm gweithgar ac ymroddedig ac i'r nifer mawr o arweinwyr a staff rhagorol y byddwn yn cwrdd â nhw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, dalfeydd mewnfudo a dalfeydd y llysoedd. Mae arweinwyr a staff rheng flaen yn gwneud gwaith pwysig dros ben mewn amgylchiadau sydd yn aml yn anodd ac ansicr ac, er gwaethaf y pwysau o ganlyniad i'w harolygu, rydym yn ddiolchgar bob amser am y ffordd broffesiynol y byddant yn ymwneud â ni.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai

# Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud



# Ein pwrpas

Rydym yn arolygiaeth annibynnol sy'n cael ei harwain gan Brif Arolygydd Carchardai EF. Rydym yn craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion ac eraill dan gadwad a'r driniaeth ohonynt ac yn adrodd ar ein canfyddiadau.

Rydym yn helpu i sicrhau bod lleoliadau cadw yng Nghymru a Lloegr, a dalfeydd mewnfudo yn yr Alban, yn rhai gwâr, diogel ac ystyriol o urddas pobl a'u bod yn helpu i baratoi pobl ar gyfer eu rhyddhau.

Gwnawn hynny drwy gynnal arolygiadau annibynnol o garchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, llysoedd a dalfeydd mewnfudo.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau i roi gwybod i bobl am ein canfyddiadau ac i ddal y llywodraeth, a'r rheini sy'n rhedeg dalfeydd, yn atebol. Byddwn hefyd yn nodi a rhoi gwybod am enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol er mwyn helpu arweinwyr i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill tebyg.

Ein rôl ni yw taflu goleuni ar yr hyn sydd angen ei newid, ond ni allwn orfodi newid. Mater i arweinwyr yw ystyried y ffordd orau i ymateb i'n pryderon a defnyddio eu hadnoddau a'u harbenigedd i ganfod atebion. Dylid cael cydweithio rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r Swyddfa Gartref a sefydliadau er mwyn hyrwyddo cynnydd o'r fath.

## Ein Disgwyliadau a phrofion sefydliad iach

Mae ein Disgwyliadau yn dangos y meini prawf a ddefnyddiwn i arolygu carchardai a dalfeydd eraill. Fe'u seiliwyd ar safonau hawliau dynol rhyngwladol a byddwn yn eu defnyddio i edrych ar bob agwedd ar fywyd dan gadwad.

Mae fersiwn wahanol o'r Disgwyliadau ar gyfer pob math o ddalfa sy'n cael ei harolygu. Fodd bynnag, mae ein methodoleg arolygu sylfaenol yn gyson rhwng yr holl leoliadau cadw. Mae'n cynnwys cyfres o ddyfarniadau thematig cyffredinol sy'n cael eu galw'n brofion sefydliad iach. Mae ychydig o wahaniaeth rhwng y gwahanol brofion ond mae pob un wedi'i ddatblygu ar sail ein pedwar prawf ar gyfer carchar iach, sef:


- **Diogelwch:** bod carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.
- **Parch:** bod carcharorion yn cael eu trin gan ddangos parch at eu hurddas fel pobl.
- **Gweithgarwch pwrpasol:** bod carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, a bod disgwyl iddynt wneud hynny.
- **Paratoi ar gyfer rhyddhau:** bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn cael ei weld yn swyddogaeth graidd i'r carchar; bod carcharorion yn cael cymorth i gynnal a datblygu perthnasoedd gyda'u teulu a'u ffrindiau, ac yn cael eu helpu i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a bod eu risg o niwed yn cael ei rheoli'n effeithiol, a'u bod yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned.

**I gael rhagor o wybodaeth am waith yr Arolygiaeth, yn ogystal â'n rhwymedigaethau rhyngwladol, ewch i'n gwefan: hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk**

# Crynodeb o'r flwyddyn



# Adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd – 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024




Arolygwyd **rhai dan gadwad a hebryngwyd** i Albania (yn hedfan o Faes Awyr Liverpool John Lennon)

Arolygwyd **cyfleusterau dalfeydd llys** yn: Swydd Bedford, Swydd Herts a Swydd Gaergrawnt, Surrey a Sussex, Humber a De Swydd Efrog.

Arolygwyd **cyfleusterau cadw tymor byr** a reolir gan Lu'r Ffiniau mewn meysydd awyr a phorthladdoedd môr ledled Cymru a Lloegr.

**Carchardai**
- Dynion
- Menywod
- Dynion/Menywod
- Hysbysiadau Brys

**Sefydliadau plant**
- YOI
- YOI Hysbysiadau Brys
- STC

**Mewnfudo**
- STHF
- IRC

**Adolygiadau annibynnol o gynnydd (IRPs)**
- Dynion
- Menywod

**Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, roeddem wedi cyhoeddi 79 o adroddiadau arolygu, adolygiadau annibynnol o gynnydd ac adroddiadau thematig.**

## Carchardai oedolion (Cymru a Lloegr)

- Arolygiadau llawn o 36 o garchardai sy'n dal dynion
- Adolygiadau annibynnol o gynnydd (IRPs) mewn 15 carchar sy'n dal dynion
- Arolygiadau llawn o dri charchar sy'n dal menywod
- Adolygiad annibynnol o gynnydd mewn un carchar sy'n dal menywod

## Sefydliadau sy'n dal plant a phobl ifanc

- Arolygiadau llawn o bedwar sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) sy'n dal plant dan 18 oed
- Arolygiad o un ganolfan hyfforddi ddiogel (STC) ar y cyd ag Ofsted

## Dalfeydd mewnfudo

- Arolygiad o ddwy ganolfan symud ymaith mewnfudo (IRC)
- Arolygiad o ddau gyfleuster aros tymor byr (STHF)
- Arolygiad o un ehediad symud ymaith siarter i wlad dramor

## Dalfeydd llys

- Arolygiad o dair dalfa llys

## Y tu allan i'r awdurdodaeth

- Arolygiad o garchar Maghaberry yng Ngogledd Iwerddon
- Arolygiadau annibynnol o gynnydd mewn dau garchar yng Ngogledd Iwerddon: Maghaberry a Magilligan
- Arolygiad o garchar Ynys Manaw

## Cyhoeddiadau eraill

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi'r canlynol:

- Adolygiad thematig o benwythnosau yn y carchar
- Adolygiad thematig o blant a menywod â statws cyfyngedig
- The quality of reading education in prisons: one year on (ar y cyd ag Ofsted)
- Arolygiad thematig ar y cyd o waith gyda phlant sydd wedi'u remandio mewn dalfeydd ieuenctid (ar y cyd ag Arolygiaeth Prawf EF ac Ofsted)
- Efficiency spotlight report: the impact of recruitment and retention on the criminal justice system (Cydarolygiad Cyfiawnder Troseddol)
- Children in custody 2022–23: an analysis of 12–18-year-olds' perceptions of their experiences in secure training centres and young offender institutions
- Yr arhosiad hir: adolygiad thematig o oedi wrth drosglwyddo carcharorion sydd â salwch meddwl (ar y cyd â'r Comisiwn Ansawdd Gofal)

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i ymgyngoriadau ac ymchwiliadau, ac wedi rhoi tystiolaeth lafar i bwyllgorau seneddol.

## Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a rhoi tystiolaeth lafar

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r ymgyngoriadau ac ymchwiliadau canlynol:

- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ymchwiliad Gwella Cymorth Ailsefydlu i'r Rheini sy'n Gadael Carchar (Mai 2023)
- Y Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref, ymchwiliad Dedfrydau Cymunedol (Mehefin 2023)
- Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, ymchwiliad Poblogaeth Carchardai a Lleoedd yn yr Ystad yn y Dyfodol (Hydref 2023)
- Y Cyngor Dedfrydu, ymgynghoriad ar Osod Canllawiau Dedfrydau Cymunedol a Charcharol (Chwefror 2024)
- Ymateb Arolygiaeth Carchardai EF i adroddiad terfynol ymchwiliad Brook House (Mawrth 2024)


Rhoesom dystiolaeth lafar i:

- Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, Poblogaeth Carchardai a Lleoedd yn yr Ystad yn y Dyfodol (21 Tachwedd 2023)

# Data am y flwyddyn

**Ffigur 1: Mae dyfarniadau carchar iach yn dangos canlyniadau gwaeth i garcharorion o ran gweithgarwch pwrpasol**


Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai oedolion dynion a menywod (n=39) yng Nghymru a Lloegr, 2023–24




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

**Ffigur 2: Mae dyfarniadau sefydliad iach yn dangos canlyniadau gwaeth i blant o ran gweithgarwch pwrpasol a diogelwch**


Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o sefydliadau troseddwyr ifanc (n=4) yng Nghymru a Lloegr, 2023–24




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

**Ffigur 3: Mae dyfarniadau sefydliad iach yn dangos canlyniadau cadarnhaol at ei gilydd i rai dan gadwad**

Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o ganolfannau symud ymaith mewnfudo (n=2) yn Lloegr, 2023–24




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

Gallwch weld asesiadau sefydliad iach ar gyfer 2023–24, niferoedd y pryderon a dderbyniwyd ac a gafodd sylw gan sefydliadau, a dadansoddiadau o'r ymatebion i arolygon ar gyfer carchardai oedolion dynion a menywod, sefydliadau plant a chanolfannau symud ymaith mewnfudo ar ein gwefan: **hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk**

## Dyroddi pedwar Hysbysiad Brys

Yn 2023–24, roeddem mor bryderus oherwydd yr hyn a welsom yn ein harolygiadau o Sefydliad Troseddwyr Ifanc Cookham Wood, CEF Bryste, CEF Woodhill a CEF Bedford fel ein bod wedi dyroddi Hysbysiadau Brys (gweler y Rhestr Termau) i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Testun pryder neilltuol oedd bod Hysbysiadau Brys wedi'u dyroddi o'r blaen ar gyfer carchardai Bryste a Bedford: Bedford yn 2018 a Bryste ar adeg ein harolygiad blaenorol yn 2019.

**Carchar Bryste – dyroddwyd 26 Gorffennaf 2023**

Cafwyd wyth marwolaeth o ganlyniad i hunanladdiad yng ngharchar Bryste ers ein harolygiad diwethaf, ac roedd un carcharor wedi'i gyhuddo o lofruddio un a oedd yn rhannu cell ag ef. Roedd arweinwyr wedi methu â gosod terfynau priodol neu safonau digon uchel, ac roedd ymddygiad gwael heb gael ei herio. Yn sail i nifer o'r diffygion hyn yr oedd perthnasoedd aneffeithiol rhwng staff a charcharorion, a chyfundrefn wael.

**Carchar Woodhill – dyroddwyd 30 Awst 2023**

Yng ngharchar Woodhill, dywedodd 48% o garcharorion nad oeddent yn teimlo'n ddiogel ar adeg ein harolwg, ond felly hefyd a wnaeth staff, nifer ohonynt yn ddibrofiad iawn a heb hyder i herio ymddygiad gwael, yn cynnwys bygwth gan garcharorion. Roedd y seilwaith budr ac anniben yn cyfrannu at y problemau cronig a oedd yn wynebu'r carchar, ac roedd prinder swyddogion yn aros wrth wraidd ei anawsterau.

**Carchar Bedford – dyroddwyd 15 Tachwedd 2023**


Roedd lefelau uchel o drais a hunan-niweidio yng ngharchar Bedford, a'r rhain yn cael eu priodoli i brinder amser y tu allan i'r gell, diffyg gwaith allweddol (gweler y Rhestr Termau), a system ceisiadau a chwynion ddiffygiol a olygai fod carcharorion yn ei chael yn anodd cael atebion i gwestiynau o ddydd i ddydd neu gael datrys problemau. Roedd y safonau glanweithdra yn is o lawer nag yn ein harolygiad blaenorol ac roedd hyn yn gwaethygu'r amodau gorlawn yr oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu cadw o danynt.

**Sefydliad Troseddwyr Ifanc Cookham Wood – dyroddwyd 26 Ebrill 2023**

Yr Hysbysiad Brys ar gyfer sefydliad Cookham Wood oedd y pumed a ddyroddwyd ar gyfer sefydliad yn yr ystad ieuenctid ers cyflwyno'r broses hon. Roedd safonau isel iawn o ymddygiad yn cael eu derbyn, roedd diffyg gweithgarwch a defnydd helaeth o garcharu unigol yn y sefydliad hwn. Roedd mwy na chwarter y plant yn cael eu cadw'n hollol ar wahân i'r brif boblogaeth ac, ar adeg ein harolygiad, roedd 90% yn dod o dan drefniadau 'cadw ar wahân', a'r staff yn rheoli 583 o wahanol achosion o wrthdaro mewn poblogaeth o 77.



Cell orlawn yn CEF Bedford



Cell yn CEF Bedford



Budreddi yn CEF Woodhill

# Un

## Carchardai oedolion – yn fwyfwy ansefydlog ac yn methu â pharatoi carcharorion ar gyfer eu dychweliad i'r gymuned




## Roedd trais a chyffuriau anghyfreithlon yn amharu ar fywyd pob dydd mewn carchardai lleol a charchardai hyfforddi i ddynion

- **Roedd lefelau'r trais mewn carchardai yn cynyddu.**
- **Roedd cyffuriau anghyfreithlon yn peri pryder mewn gormod o garchardai.**

Roeddem wedi barnu bod lefel y diogelwch yn wael neu heb fod yn ddigon da mewn 11 o'r 39 o garchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc a oedd yn dal dynion a menywod sy'n oedolion ac yn oedolion ifanc. Roedd yn destun pryder nad oedd carchar diogelwch uchel Long Lartin yn ddigon diogel, gyda lefelau uchel o drais, cyffuriau a hunan-niweidio, er ei fod yn cael gwell adnoddau na charchardai eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r sgoriau gwaethaf yn y carchardai lleol a charchardai hyfforddi categori B.

Roedd nifer mawr o garcharorion yn y carchardai hyn wedi cael eu dal mewn cylch o ddiflastod, rhwystredigaeth ac ymddygiad gwael a oedd yn porthi'r galw am gyffuriau a mwy o drais, dyled a hunan-niweidio. Roedd hyn wedi'i ategu'n aml gan berthnasoedd gwael â staff, methiant i sefydlu neu orfodi'r rheolau a rhy ychydig o lawer o weithgarwch pwrpasol.

Ychydig iawn o bryderon a godwyd gennym ynghylch diogelwch yn y saith carchar agored a arolygwyd y flwyddyn hon, ar ôl gweld canlyniadau da neu weddol dda yn y rhan fwyaf ohonynt. Roedd y rhagolwg am ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL) i hyrwyddo cyflogaeth, cysylltiadau teuluol ac ailsefydlu yn gymhelliad effeithiol i nifer o garcharorion, er i ni nodi bod lefel y cyflenwad o gyffuriau a'r galw amdanynt yn uchel yng ngharchar Sudbury. Roedd pob un o'r carchardai sy'n dal y rheini a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (a elwir hefyd yn garchardai PCoSO) hefyd yn cael eu hystyried yn rhai diogel.




**Rhodfeydd yng ngharchar High Down**



**Llety mewn cabanau yng ngharchar Sudbury**

**Ffigur 4: Mae'r dyfarniadau carchar iach ar ddiogelwch yn dangos canlyniadau mwy cadarnhaol i garcharorion mewn carchardai agored a charchardai menywod, ac mewn carchardai sy'n dal pobl a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol**

Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai oedolion dynion a menywod (n=39) yng Nghymru a Lloegr, 2023–24




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

## Cynnydd mewn trais

Roedd trais yn destun pryder blaenoriaethol mewn 14 carchar oedolion i ddynion yr ymwelwyd â nhw y flwyddyn hon ac roedd yn aml yn ganlyniad i'r fasnach cyffuriau anghyfreithlon. Roedd data swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder am ddiogelwch yn dangos bod cynnydd o 20% yn y cyfraddau trais a gofnodwyd yn yr holl garchardai oedolion dynion yn 2023, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roeddem wedi nodi pryderon neilltuol yn y tri charchar oedolion lle'r oeddem wedi troi at broses yr Hysbysiad Brys (gweler y Rhestr Termau a thudalen 15), ond roedd trais wedi cynyddu mewn carchardai eraill hefyd. Yng ngharchar Lowdham Grange, er enghraifft, roedd wedi cynyddu 55% yn y chwe mis cyn ein hadolygiad annibynnol o gynnydd (IRP) yn Ionawr 2024, o lefelau a oedd eisoes yn uchel yn yr arolygiad llawn.

Roedd staff yn methu'n gyson â herio ymddygiad gwael yn yr adeiniau. Mewn rhai carchardai, byddai rheolau'n cael eu torri heb bron dim canlyniadau am nad oedd arweinwyr wedi gosod terfynau clir, ac nid oedd prosesau profi am gyffuriau a dyfarnu yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

> **Roedd diffyg hyder ymysg y nifer mawr o staff cymharol ddibrofiad ac nid oeddent yn cael digon o gefnogaeth i herio ymddygiad gwael, a gwelsom fod bwlio a bygwth gan garcharorion yn rhemp. Dywedodd nifer o swyddogion carchar wrthym eu bod yn poeni am eu diogelwch, ac roedd lefel y morâl yn isel. Carchar Woodhill**

Roedd carchardai'n aml yn dibynnu ar brosesau safonol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), fel cynlluniau herio, cynorthwyo ac ymyrryd (CSIPs, gweler y Rhestr Termau), i reoli carcharorion treisgar. Fodd bynnag, nid oedd yr ymchwiliadau i ddigwyddiadau'n ddigon trwyadl bob amser ac roedd diffyg ymyrraeth adeiladol i ddelio ag achosion sylfaenol yr ymddygiad gwael. Roedd CSIPs yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol yng ngharchardai Abertawe, Holme House a Moorland. Roedd lefel y trais wedi gostwng ym mhob un o'r carchardai hyn – yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar fesurau cosbol i reoli ymddygiad, roedd arweinwyr yn datblygu diwylliannau cadarnhaol wedi'u seilio ar derfynau clir, ymgysylltu da â charcharorion a chymhellion ystyrlon.

Cafwyd cynnydd yn y defnydd o rym gan staff yn hanner y carchardai oedolion dynion a arolygwyd y flwyddyn hon, a lefel y defnydd ohono'n uchel mewn carchardai fel Brinsford, Feltham B a Woodhill. Pan oeddem wedi codi pryderon ynghylch y defnydd o rym, roeddent yn ymwneud yn bennaf â llywodraethu gwael a methiant ar ran staff i ddefnyddio camerâu fideo gwisgadwy.

Er bod cyfradd yr ymosodiadau mewn carchardai menywod wedi cynyddu'n sydyn er 2021, roedd y tri a arolygwyd gennym y flwyddyn hon yn rhai tawel, trefnus a diogel.

## Cyffuriau anghyfreithlon yn destun pryder mewn gormod o garchardai

Er ein bod yn falch o weld y camau i gyflwyno technoleg i leihau'r mewnlifiad o gyffuriau, a rhywfaint o waith rhagweithiol gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau i drin carcharorion, roeddem wedi codi pryderon blaenoriaethol neu allweddol am gyffuriau anghyfreithlon mewn 15 o garchardai oedolion dynion. Mewn carchardai dynion, dywedodd tua un rhan o dair (32%) o garcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon; mewn carchardai menywod, roedd y ffigur oddeutu un rhan o bump (21%). Dywedodd 9% o ddynion eu bod wedi datblygu problem â chyffuriau anghyfreithlon ers dod i'r carchar, a'r ffigur hwnnw'n codi i'r ganran frawychus o 21% yng ngharchar Lindholme.

Roedd y canlyniadau negyddol o gamddefnyddio cyffuriau yn glir. Hon oedd yr her fwyaf yng ngharchar Lindholme, yn cyfrannu at drais a marwolaethau yn y ddalfa, ac roedd cyffuriau anghyfreithlon yn bygwth sefydlogrwydd carchardai, yn cynnwys High Down, Hindley a Lowdham Grange. Yn aml, roedd angen rhoi mwy o sylw i weithgarwch ar draws y carchar i leihau'r cyflenwad a'r galw, yn ogystal â darparu mwy o gymorth i garcharorion.

Nid oedd y profi gorfodol am gyffuriau wedi codi'n ôl eto i'r lefelau cyn y pandemig, fel ei bod yn anodd amcangyfrif y defnydd o gyffuriau ar lefel genedlaethol neu gymharu canlyniadau rhwng carchardai. Roedd cyfradd y canlyniadau cadarnhaol o brofion cyffuriau mewn rhai carchardai yn uchel iawn, yn enwedig felly yng ngharchar Hindley, lle'r oedd 53% o'r profion yn gadarnhaol. Yn aml, nid oedd sylw wedi'i roi i'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r galw am gyffuriau, fel cyfundrefn wael neu ddiffyg amser y tu allan i'r gell, a oedd yn peri i garcharorion deimlo'n ddiflas a rhwystredig.

> **Roedd diogelwch yn cael ei danseilio gan drais a bwlio, a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau, cyflogau isel iawn, dyled a diffyg gweithgarwch pwrpasol amser llawn… Newydd ailddechrau yn Chwefror 2023 yr oedd y profi gorfodol am gyffuriau ar ôl bwlch o bron tair blynedd… Roedd cyfradd y canlyniadau cadarnhaol o brofion cyffuriau yn y tri mis blaenorol yn uchel iawn, sef 33.7%.**
> **Carchar High Down**

Roedd y cymorth proffesiynol i garcharorion sydd â phroblemau o ran dibyniaeth a chamddefnyddio sylweddau yn weddol dda at ei gilydd, ond nid oedd y mynediad at ymyriadau clinigol hyblyg, unigoledig a chydgymorth gan sefydliadau cymorth wedi'i sefydlu'n llawn eto. Oherwydd prinder staff, roedd gwasanaethau wedi'u gorymestyn mewn llawer achos ac, yn aml, dyfalbarhad ar ran y staff presennol oedd yr unig reswm bod cymorth digonol i garcharorion yn dal i fod ar gael. Nid oedd blaenoriaeth wedi'i rhoi eto i ddarparu lle diogel i garcharorion storio meddyginiaethau yn eu celloedd er mwyn atal dwyn, nac i gamau i atal ymdrechion i wrthdynnu sylw wrth agorfeydd darparu meddyginiaethau.

Roedd mwy o adeiniau carchar wedi'u dynodi'n unedau byw heb gyffuriau y flwyddyn hon, er bod y meini prawf mynediad yn amrywio rhwng carchardai, fel yr oedd eu heffeithiolrwydd. Gwelsom nifer bach o safleoedd lle'r oedd yr adeiniau hyn yn gwneud gwahaniaeth, yn cynnwys y rheini yn Abertawe, Preston a Holme House, lle'r oedd swyddogion dynodedig a gafodd hyfforddiant arbenigol yn gweithio ar adeiniau ymadfer. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedwyd mai'r adain byw heb sylweddau yng ngharchar Hindley oedd un o'r ddwy adain fwyaf problemus yn y carchar o ran y defnydd o gyffuriau.

# Pryderon oherwydd cynnydd mewn hunanladdiadau a hunan-niweidio

- Cafwyd cynnydd sylweddol mewn hunanladdiadau a hunan-niweidio mewn rhai carchardai dynion.
- Gwelsom fod cymorth gweddol dda ar gael i reoli hunan-niweidio yn y carchardai menywod a arolygwyd, er bod tueddiadau cenedlaethol yn peri pryder.
- Roedd y trefniadau cynefino a chymorth yn y dyddiau cynnar yn wan mewn rhai achosion.
- Roedd bylchau mewn gwasanaethau iechyd meddwl a oedd yn peri pryder.

## Cynnydd mewn hunanladdiadau a hunan-niweidio mewn rhai carchardai

Yn 2023, cafwyd 90 o achosion o hunanladdiad mewn carchardai oedolion dynion, cynnydd o 27% oddi ar 2022, a thri achos o hunanladdiad mewn carchardai menywod, yn llai na'r pump yn y flwyddyn flaenorol. Yn ein harolygiad ym Mryste, a arweiniodd at ddyroddi Hysbysiad Brys, cafwyd gwybod bod wyth achos o hunanladdiad ers ein harolygiad diwethaf, ac roedd ein hadolygiad annibynnol o gynnydd yng ngharchar Leeds wedi adrodd bod saith dyn wedi cyflawni hunanladdiad yn y 13 mis ers ein harolygiad diwethaf.

Mewn tua thraean o'r carchardai dynion a arolygwyd y flwyddyn hon, roedd y gyfradd hunan-niweidio wedi cynyddu'n sylweddol ac, mewn rhai achosion, wedi codi cymaint â dwywaith. Ar lefel genedlaethol, roedd cyfraddau hunan-niweidio wedi cynyddu 24% mewn carchardai oedolion dynion ac 11% yn yr ystad menywod rhwng 2022 a 2023. Er gwaethaf y pryder o ganlyniad i'r ffigurau hyn, mewn llawer achos nid oedd arweinwyr wedi mynd i'r afael o ddifrif â gwaith i ganfod a delio â'r achosion sylfaenol yn rhai o'r carchardai mwyaf eu risg. Yn rhy aml, yr ateb a gafwyd oedd rheoli'r carcharor drwy'r broses asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ar gyfer rheoli achosion, a oedd yn aml yn cael ei gweithredu'n wael. Dim ond 49% o ddynion a gafodd gymorth drwy'r broses hon o'r blaen a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal gan staff.

Roedd carcharorion wedi dweud bod dyled, problemau cyffuriau a chwalfa deuluol ymysg y ffactorau sy'n cyfrannu at hunan-niweidio, er bod y camau i ymdrin â'r materion hyn yn aml yn ddigyswllt. Am fod cyfundrefnau'n gyfyngedig, roedd nifer mawr heb nemor ddim i fynd â'u bryd ac am fod y cymorth gan staff yn anghyson roedd carcharorion yn teimlo'n rhwystredig mewn llawer achos (gweler tudalennau 28 i 30); ym Mryste dywedodd carcharorion wrthym fod hunan-niweidio yn ffordd effeithiol i gael sylw a mynd â'r maen i'r wal. Roedd y mynediad at gymorth gan gymheiriaid, fel gwrandawyr a hyfforddwyd gan y Samariaid, yn wael mewn llawer achos, yn enwedig yn y nos. Yn ein harolwg, dim ond 33% o ddynion a ddywedodd y byddai cloch galw eu cell yn cael ei hateb o fewn pum munud os oedd arnynt angen cynhorthwy a dim ond 36% y ddywedodd fod swyddog wedi holi amdanynt yn yr wythnos diwethaf.

Er bod y cynnydd yn nifer yr achosion o hunanladdiad mewn carchardai dynion yn peri pryder, roedd ansawdd yr adolygiadau dysgu cynnar yn dilyn marwolaeth neu achos o hunan-niweidio yn wael yn aml. Ar rai achlysuron, ni chafwyd adolygiad nac ymchwiliad systematig i sicrhau bod modd dysgu gwersi'n fuan. Hyd yn oed lle cyhoeddwyd adroddiadau annibynnol swyddogol, nid oedd argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf wedi'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol dros amser.

> **Er bod nifer mawr o garcharorion o dan oruchwyliaeth gyson, a bod tua 50 o achosion o hunan-niweidio yn galw am ymbresenoli mewn ysbyty yn y flwyddyn flaenorol, dim ond tri achos o hunan-niweidio difrifol yr ymchwiliwyd iddynt. Carchar Lowdham Grange**

Lle'r oedd y cyfraddau hunan-niweidio yn isel neu wedi gostwng, gwelsom yn aml fod yno ddiwylliannau mwy cadarnhaol gyda gwell darpariaeth o amser y tu allan i'r gell, amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi a staff amlddisgyblaethol ymroddedig. Carchar Abertawe oedd un o'r carchardai derbyn mwyaf diogel i ni ymweld ag ef, gyda lefelau isel o drais a hunan-niweidio. Roedd yn cymryd camau ar sail tystiolaeth ar lefel y carchar cyfan i leihau hunan-niweidio, wedi'u hategu gan berthnasoedd cadarn rhwng y staff a'r carcharorion.

**Roedd darpariaeth gadarn mewn tri charchar menywod, er bod cynnydd yn y cyfraddau hunan-niweidio ar lefel genedlaethol ymysg carcharorion sy'n fenywod yn peri pryder**

Er bod cyfradd flynyddol yr hunan-niweidio ymysg menywod wedi parhau i godi yn 2023 ac yn naw gwaith yn uwch nag yn yr ystad oedolion gwrywaidd, gwelsom fod rhywfaint o gymorth cadarnhaol ar gael yng ngharchar Peterborough, lle'r oedd y lefelau hunan-niweidio a gofnodwyd wedi gostwng yn sylweddol yn y chwe mis cyn yr arolygiad.

Yn y ddau garchar agored a arolygwyd, roedd menywod yn llai tebygol o lawer o hunan-niweidio, hyd yn oed lle'r oedd ganddynt hanes hir o wneud hynny. Cyfeiriodd menywod at y mannau agored, rhyddid, cymorth gan staff a chyd-garcharorion a chyfleoedd i symud ymlaen fel ffactorau amddiffynnol. Roedd arolygwyr wedi gweld rhai ymyriadau rhagorol, yn cynnwys y rhaglen Hope yn Askham Grange – a oedd yn helpu menywod i ddeall eu hemosiynau a datblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol – a therapi cyfunol a chymorth gan hyfforddwyr yn East Sutton Park.

Defnyddid grym weithiau i atal menywod rhag hunan-niweidio. Roeddem yn falch bod hyn yn digwydd yn llai aml nag ar adeg ein harolygiad diwethaf yn Peterborough, ond yn ein hadolygiad annibynnol o gynnydd yn Eastwood Park – lle'r oedd y gyfradd uchaf o hunan-niweidio yn yr ystad menywod ar y pryd – roeddem yn pryderu nad fel dewis olaf yr oedd grym yn cael ei ddefnyddio, ac wedi tynnu sylw at y diffyg cyfarwyddyd neu hyfforddiant gan HMPPS i helpu staff i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath.

**Roedd grym wedi'i ddefnyddio nifer mawr o weithiau i reoli menywod mewn argyfwng, ac yn yr wyth mis diwethaf fe'i defnyddiwyd 22 o weithiau i dynnu pob dilledyn oddi am fenywod er mwyn rhoi dillad atal rhwygo amdanynt, ac roedd hyn yn peri pryder mawr. Adolygiad Annibynnol o Gynnydd yn Eastwood Park**



Tiroedd Askham Grange



Ystafell dderbyn yn Brinsford

## Gwendidau o ran cymorth cynefino a chymorth yn y dyddiau cyntaf

Roedd yn siomedig ein bod yn gorfod codi pryder yn ymwneud â'r cymorth gwael a gynigiwyd i garcharorion a oedd newydd gyrraedd mewn wyth carchar dynion, pump ohonynt yn garchardai derbyn (Preston, Birmingham, Abertawe, Brinsford a Bedford).

Rydym yn disgwyl i staff gyf-weld newydd-ddyfodiaid er mwyn canfod risgiau a ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, ond roedd rhai'n methu â gwneud hynny, neu heb gynnal cyfweliadau'n breifat, fel ei bod yn llai tebygol y byddai gwybodaeth sensitif yn cael ei datgelu. Roedd mesurau diogelu eraill, fel gwiriadau lles ychwanegol ar y noson gyntaf, heb eu cwblhau, ac roedd carcharorion yn aml yn gorfod aros i rifau ffôn gael eu hychwanegu i'w cyfrifon er mwyn gallu cysylltu â'u teulu neu bobl eraill a allai eu cynorthwyo. Er bod y rhan fwyaf o garcharorion wedi cwblhau rhaglen gynefino, dim ond 55% o ddynion a 50% o fenywod yn ein harolwg a ddywedodd ei bod wedi cynnwys pob dim roedd angen iddynt ei wybod.

Roedd ein harolygiad diwethaf yng ngharchar Caerwysg wedi arwain at ddyroddi Hysbysiad Brys. Er mai bregus oedd y cynnydd a gofnodwyd yn yr adolygiad annibynnol ym mis Tachwedd, calonogol oedd gweld bod y gofal a'r cymorth i unigolion mewn argyfwng yn gwella, a hynny'n cynnwys newydd-ddyfodiaid.

## Bylchau mewn gwasanaethau iechyd


Oherwydd cyfraddau uchel y swyddi gwag i staff gofal iechyd, ynghyd ag anawsterau cronig o ran recriwtio a chadw staff, roedd nifer o garchardai heb nifer digonol o staff clinigol i ddarparu gofal effeithiol. Roedd hyn yn fwy cyffredin ym meysydd iechyd meddwl a darparu meddyginiaethau'n ddiogel, fel bod anghenion heb eu diwallu a rhai cleifion wedi profi canlyniadau niweidiol. Mewn 14 o garchardai, codwyd pryderon ynghylch arferion ac arolygu mewn perthynas â meddyginiaethau. Yn ystod y cydarolygiadau hyn, roedd ein partner y Comisiwn Ansawdd Gofal wedi dyroddi chwe hysbysiad rheoliadol yn ymwneud yn benodol â meddyginiaethau yn Lloegr.

Roeddem wedi codi pryderon am fylchau yn y ddarpariaeth iechyd meddwl ar 12 safle y flwyddyn hon. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud ag aros am gyfnodau rhy hir cyn trosglwyddo i ysbytai diogel o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi wrth asesu a thrin cleifion tra byddant yn y carchar. Yn ein hadolygiad thematig o brofiadau carcharorion yn aros am eu trosglwyddo, cafwyd gwybod am rai canlyniadau a oedd yn ddisgwyliadwy ond yn peri pryder.

> **Ni ellir darparu triniaeth, asesu a gofal am gleifion yn gyfreithlon o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn carchardai. Mae'n hanfodol bod anhwylderau iechyd meddwl yn cael eu trin yn fuan ac mae oedi wrth gael mynediad at ofal na ellir ei ddarparu yn y carchar yn gallu achosi niwed parhaol. Oherwydd hyn, y straen presennol ar leoedd mewn carchardai, yr her seicolegol a chorfforol a wynebir gan swyddogion carchar a nyrsys sy'n ceisio gofalu am bobl sydd mor wael, fe ddylid rhoi blaenoriaeth i'w symud yn brydlon o'r carchar i ysbytai diogel. Ond ni wneir hynny. [...] Yn yr achosion roeddem wedi edrych arnynt, llai na 15% o gleifion a oedd wedi'u trosglwyddo o fewn 28 diwrnod.**
>
> **Yr arhosiad hir. Adolygiad thematig o oedi wrth drosglwyddo carcharorion sydd â salwch meddwl**

**Ffigur 5: Nid oedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ein sampl wedi cael eu trosglwyddo o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sydd wedi'i argymell**

Ar sail 171 o gleifion mewn 21 o garchardai ledled Cymru a Lloegr 2022–23




Gwelwyd diffygion hefyd yn y ddarpariaeth o wasanaethau seicoleg a therapïau siarad y GIG. Roedd y bylchau hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar fynediad yng ngharchar Lowdham Grange, lle'r oedd mwy na 100 o gleifion wedi aros mwy na blwyddyn am driniaeth, ac yn Swaleside cafwyd bod 124 o gleifion yn aros am driniaeth seicolegol. Roedd tri charchar – Brinsford, Morton Hall ac Abertawe – nad oeddent yn darparu unrhyw fath o driniaeth seiliedig ar seicoleg, fel bod anghenion iechyd meddwl gan garcharorion a oedd heb eu canfod na'u diwallu. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, wrth roi sylw i sefydliadau categori D y flwyddyn hon, gwelwyd bod ganddynt wasanaethau iechyd meddwl cadarnhaol.

Roedd pwysau ehangach yn effeithio ar ofal hefyd. Ym Mryste, oherwydd prinder swyddogion, nid oedd cleifion yn cael eu cludo i'w hapwyntiadau, ac yn Long Lartin a Brinsford roedd cyfyngiadau'r gyfundrefn yn golygu bod y mynediad at gleifion gan glinigwyr iechyd meddwl yn cael ei gwtogi'n aml.

## Dirywiad yn amodau byw dynion yn y carchar

- **Roedd amodau byw wedi dirywio mewn nifer o garchardai.**
- **Roedd gorlenwi yn gwaethygu amodau gwael.**
- **Roedd rhai arweinwyr wedi bod yn effeithiol wrth flaenoriaethu amodau byw, gyda chanlyniadau cadarnhaol.**

### Bu dirywiad yn yr amodau byw i nifer mawr o ddynion yn y carchar

Y flwyddyn hon, roeddem wedi codi pryderon am amodau byw mewn 16 o garchardai oedolion dynion a gwelsom ddarlun o ddirywiad a oedd yn peri pryder. Er bod hyn yn llai annisgwyl mewn carchardai Fictoraidd fel Bedford neu Fryste, cafwyd dirywiad sylweddol mewn nifer o garchardai agored, a hefyd yn y ddau garchar diogelwch uchel a arolygwyd. Hyd yn oed yn Grendon, sydd yn gymuned therapiwtig (gweler y Rhestr Termau), roedd nifer o'r adeiladau'n 'ddadfeiliedig'.

Roedd amryw o broblemau wedi cyfrannu at y dirywiad hwn ond y pennaf yn eu mysg oedd diffyg buddsoddi mewn seilwaith sy'n mynd yn hŷn ac analluogi i gomisiynu neu ymgymryd â gwaith adeiladu. Roedd gormod o lawer o adeiladau a systemau a oedd angen eu huwchraddio, ac roedd y ffaith bod trefniadau 'glanweithdra nos' yn parhau mewn rhai carchardai yn annerbyniol.

Mewn gormod o sefydliadau, roedd arweinwyr wedi methu â gosod safonau digon uchel i garcharorion a staff. Roedd adeiniau'n fudr, rheolweithiau glanhau wedi pallu ac mewn rhai achosion nid oedd yn rhwydd i garcharorion gael gafael ar offer glanhau. Gwelwyd un o'r enghreifftiau gwaethaf o hyn mewn carchar diogelwch uchel.

> **Nid oes gwell arwydd o ddirywiad mewn carchar na diffyg glanweithdra ac yn Whitemoor yr adeiniau oedd y rhai butraf i mi eu gweld ers dod yn Brif Arolygydd. Whitemoor**

Hyd yn oed yng ngharchar Ford, sydd yn sefydliad agored, roedd rhai mannau preswyl yn 'aflan'. Roedd yr amodau gwael mewn rhai carchardai 'hynafol' fel Caerlŷr, Bedford a Preston wedi arwain at blâu o lygod mawr, chwilod duon, pryfed a hyd yn oed colomennod. Roedd nifer o gelloedd a ddefnyddid ar gyfer newydd-ddyfodiaid hefyd yn fudr, yn llawn graffiti neu wedi'u cyfarparu a'u cynnal yn wael.


Staen gwaed yn Whitemoor


Troliau bwyd budr yn Ford


Cell yng ngharchar Preston

Mewn rhai carchardai caeedig, nid oedd carcharorion yn cael digon o amser y tu allan i'r gell er mwyn gallu glanhau sefydliadau'n effeithiol. Yn aml, roedd mannau cawodydd cymunol mewn cyflwr gwael dros ben; roedd llwydni mewn nifer ohonynt neu'r awyru'n wael, ac roedd rhaglenni i'w hadnewyddu'n rhy araf o lawer. Gwelsom rai yng ngharchar Risley a oedd mewn cyflwr echrydus ac roedd 'rhannau o'r carchar yn rhy ddrwg i'w hatgyweirio bellach' – ond roedd ein hadroddiad wedi sbarduno gwelliannau ac mewn adolygiad annibynnol o gynnydd wedyn roedd yn glir bod arweinwyr wedi cydymdrechu i adnewyddu'r cawodydd a gwella'r amgylchedd. Ymhlith y problemau difrifol eraill roedd systemau gwresogi a oedd wedi torri gan adael carcharorion mewn celloedd oer ac awyru annigonol a oedd yn gwneud adeiniau'n annioddefol o boeth.

## Roedd gorlenwi'n gwaethygu amodau gwael

Roedd nifer o garchardai yn parhau i dderbyn mwy o garcharorion ac i weithredu ar lefel llety sy'n uwch na'r hyn sy'n cael ei hardystio fel arfer o ganlyniad i bwysau'r boblogaeth carchardai ar lefel genedlaethol. Erbyn Mawrth 2024, roedd 60% o sefydliadau carcharol (72) yn orlawn.

Yn ogystal â'n pryderon am amodau byw cyffredinol, roeddem wedi codi pryderon yn aml am orlenwi. Roedd gormod o lawer o garcharorion yn 2023–24 yn rhannu celloedd a fwriadwyd ar gyfer un person. Weithiau, fel a welwyd yn Stoke Heath, roedd hyn yn golygu bod celloedd mor orlawn fel bod y gwelyau'n union wrth ymyl y toiledau heb ddim neu nemor ddim sgrinio. Yng ngharchar Abertawe, roedd gormod o garcharorion yn byw mewn celloedd gorlawn ac yng ngharchar North Sea Camp roedd bron pob un o'r carcharorion yn byw mewn celloedd a rennir a oedd yn rhy fach o lawer. Yn yr adolygiad annibynnol o gynnydd yng ngharchar Leeds, cawsom fod bron 80% o ddynion yn rhannu celloedd a fwriadwyd ar gyfer un person, ac yng ngharchar Bedford roedd bron tri chwarter o'r dynion yn rhannu celloedd cyfyng, a hynny ar ben yr amodau neilltuol o wael sydd yno. Yng ngharchar Caerlŷr, nodwyd achosion lle'r oedd gorlenwi wedi dwysáu'r tensiynau rhwng carcharorion ac yng ngharchar Caerwysg cafwyd bod:

> **Camau i wella amodau byw wedi cymryd gormod o amser i'w cwblhau ac oherwydd pwysau poblogaeth ar lefel genedlaethol roedd carchar Caerwysg yn dal i fod yn un o'r carchardai mwyaf gorlawn yng Nghymru a Lloegr. Adolygiad Annibynnol o Gynnydd CEF Caerwysg**


Cell yng ngharchar Abertawe


Cell yng ngharchar Leeds


Waliau llaith yng ngharchar Caerwysg





Coridorau yn Holme House

## Pwysigrwydd arweinyddiaeth wrth wella amodau byw

Roedd arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol yn aml wrth sbarduno gwelliannau mewn amodau. Roedd arweinwyr yng ngharchardai Abertawe a Leeds wedi llwyddo i wneud y gorau o adeiladau gweddol hen drwy roi blaenoriaeth i wedduster a gwaith cynnal a chadw. Ar ôl ymgynghori â charcharorion, roedd arweinwyr yn Holme House wedi gwneud ymdrechion rhagorol i drawsnewid amgylchedd a oedd yn ddi-liw fel arall drwy gynnwys murluniau a gwaith celf ac roedd rheolwyr yn Swaleside wedi gwneud defnydd effeithiol o dimau glanhau a phaentio o blith y carcharorion.




Canol carchar Leeds

## Roedd angen mwy o waith i wella perthnasoedd rhwng staff a charcharorion a thrin pob grŵp yn deg

- **Yn rhy aml, teimlai dynion fod natur y rhyngweithio â staff yn ddihidio a gweithrediadol.**
- **Roedd gwell perthnasoedd rhwng staff a charcharorion mewn carchardai sydd â swyddogaeth arbenigol.**
- **Roedd angen mwy o waith gan garchardai i drin y gwahanol grwpiau'n deg.**

### Roedd y perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn aml yn rhai gweithrediadol

Mae perthnasoedd effeithiol, ymddiriedus rhwng carcharorion a staff, gyda rheolau clir, yn gallu helpu i wneud carchardai'n fwy diogel ac i ategu'r gwaith o leihau'r risg o aildroseddu. Mae carcharorion yn dibynnu'n llwyr ar staff i allu gwneud y tasgau symlaf ac os nad yw'r perthnasoedd yn dda neu os nad yw swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt, yna gall hynny arwain at rwystredigaeth ac weithiau at wrthdaro. Y flwyddyn hon, roeddem wedi adrodd ar ormod o garchardai dynion lle'r oedd y rhyngweithio'n ddihidio a gweithrediadol. Roedd nifer o garcharorion wedi dweud wrthym am eu rhwystredigaeth o fethu â gallu cyflawni pethau pob dydd yn ddiymdroi. Roedd hyn yn cynnwys pethau syml fel holi i weld faint o arian parod sydd ganddynt yn eu cyfrif neu wneud apwyntiad i weld staff mewn uned arall.

Byddai rhwystredigaeth yn codi'n aml wrth ymwneud â staff newydd, tymor byr neu ddibrofiad a oedd yn anghyfarwydd â'r carchar, yr adain neu'r carcharorion. Mewn nifer o garchardai, roedd prinder staff hefyd yn rhwystr i swyddogion wrth ddod i adnabod y carcharorion; er enghraifft, yn Swaleside roeddem wedi nodi bod staff ar ddyletswydd neilltuol o garchardai eraill yn aml yn llai ymroddedig i'w gwaith a bod carcharorion yn teimlo'n rhwystredig oherwydd eu diffyg gwybodaeth am weithdrefnau'r carchar. Dim ond hanner y cwota o swyddogion Band 3 yn Woodhill a oedd ar gael i fod ar ddyletswydd, ac roedd hynny'n tanseilio 'bron pob elfen o'r darparu ac yn cyfyngu ar yr amser pan nad oedd carcharorion dan glo, ar eu mynediad at weithgareddau ac ar y gofal a gaent'.

Mewn carchardai fel Brinsford a Bedford, roedd y gyfundrefn gyfyngedig yn effeithio ar ansawdd y perthnasoedd rhwng staff a charcharorion am ei bod yn cyfyngu'r amser pan oedd carcharorion yn cael dod allan o'u celloedd i ofyn am help. Yng ngharchar Peterborough, byddai swyddogion yn cael eu hadleoli'n aml o'r carchar dynion i weithio ar safle'r menywod. Roedd rhai'n llai cyfarwydd â gweithio gyda menywod fel nad oeddent bob amser yn gallu delio â materion a gododd neu ateb ceisiadau syml. Gwelsom ddarlun mwy cadarnhaol yng ngharchardai Caerlŷr, Gartree a Morton Hall lle'r oedd materion pob dydd yn cael eu datrys yn anffurfiol ac yn amserol gan amlaf.

Mewn rhai carchardai, gwelsom fod cydbwysedd da rhwng gofal a rheolaeth, a bod swyddogion yn pennu ac yn gorfodi disgwyliadau clir o ran ymddygiad i garcharorion. Er hynny, mewn nifer o sefydliadau dynion, roedd yr oruchwyliaeth a'r rheolaeth ar garcharorion yn brin, a swyddogion heb gael eu gweld yn ddigon aml yn yr adeiniau ac, mewn nifer bach o garchardai, heb yr hyder i herio torri rheolau cyson (gweler tudalen 19). Mewn llawer man, gwelsom staff yn ymgynnull mewn swyddfeydd neu'n pwyso ar ganllawiau yn hytrach nag ymwneud â charcharorion, hyd yn oed pan oeddent yn galw am help.

Gwelsom rai enghreifftiau o ymddygiad gwael iawn hefyd. Yng ngharchar Bedford, roedd tystiolaeth bod staff yn arfer grym corfforol yn amhriodol yn erbyn carcharorion, ac roedd staff a charcharorion wedi dweud iddynt weld hiliaeth ar ran staff.

## Ceir perthnasoedd gwell mewn carchardai sydd â swyddogaeth arbenigol

Mewn carchardai menywod a'r rheini sydd â swyddogaeth arbenigol, fel Grendon a Dovegate, roedd perthnasoedd da iawn rhwng staff a charcharorion. Yn yr un modd, mewn unedau sydd â swyddogaeth bendant, fel amgylcheddau cynlluniedig ar sail seicoleg (PIPEs, gweler y Rhestr Termau), cymunedau therapiwtig (TCs, gweler y Rhestr Termau) ac unedau uwch o fewn y carchar, gwelwyd cydweithio rhagorol rhwng swyddogion a staff arbenigol a oedd yn hyrwyddo model cymunedol cadarnhaol, lle'r oedd parch o'r ddwy ochr a pherthnasoedd da yn amlwg.

> **Roedd swyddogion carchar arbenigol yn cael eu dewis yn arbennig, byddent yn cael hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer eu rôl a chymorth da gyda goruchwyliaeth glinigol reolaidd a chyfarfodydd grŵp ar sensitifrwydd i ymdrin â'r baich emosiynol o weithio mewn amgylchedd therapiwtig. Grendon**

Roedd perthnasoedd da rhwng staff a charcharorion hefyd, ar y cyfan, mewn carchardai i bobl a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol, er enghraifft Bure a Littlehey.

Roedd gweithwyr o blith cydgarcharorion hefyd yn ychwanegu at ansawdd y perthnasoedd hyn, os oeddent wedi'u hyfforddi a'u goruchwylio'n dda.

Mewn carchardai sydd heb swyddogaeth arbenigol, anaml y darparwyd hyfforddiant i swyddogion ar ddeall ac ymateb i garcharorion sydd ag ymddygiad cymhleth iawn neu anghenion amrywiol. Hyd yn oed mewn carchardai lle'r oedd y perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn gadarnhaol, byddai wedi bod yn fuddiol darparu hyfforddiant ychwanegol, er enghraifft ar anghenion menywod a charcharorion sy'n wladolion tramor. Yn ein harolwg o staff, roedd 30% o'r rheini mewn rolau gweithredol rheng flaen wedi dweud wrthym mai dim ond unwaith y flwyddyn neu'n llai aml na hynny y byddent yn cwrdd â mentor neu reolwr, a hynny'n destun pryder o ystyried nifer y staff cymharol newydd a dibrofiad sydd yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

## Roedd angen mwy o waith gan garchardai i drin y gwahanol grwpiau'n deg

Gwelsom yn rhy aml fod dealltwriaeth gwael o brofiadau gwahanol grwpiau o garcharorion, mai prin oedd yr ymgynghori ac nad oedd carchardai'n defnyddio data yn effeithiol i ganfod anghysonderau posibl neu weithredu ar y canfyddiadau. Lle'r oedd tystiolaeth yn cael ei chasglu, roedd arweinwyr yn aml yn methu â'i defnyddio i sbarduno gwelliannau pendant mewn canlyniadau. Roedd gormod o garcharorion hefyd a oedd heb ffydd yn y system i gwyno am wahaniaethu.

Yn ein harolwg o garchardai dynion, roedd y rheini o gefndir ethnig heblaw gwyn yn dal i fod yn llai tebygol na charcharorion gwyn o roi gwybod iddynt gael eu trin â pharch gan y rhan fwyaf o staff a bod aelod staff y gallent droi ato i gael help.

Roeddem wedi adrodd ar heriau a wynebwyd gan garcharorion ag anableddau wrth gael mynediad at wasanaethau mewn carchardai fel rhai Bryste, Long Lartin a Peterborough (Menywod). Yng ngharchar Bryste, nid oedd carcharorion anabl yn gallu mynd i apwyntiadau gofal iechyd neu ddeintyddol. Yn ein harolwg, ychydig llai na thraean y menywod ag anableddau a ddywedodd eu bod yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt, ond nid oedd yr un fenyw sydd ag anableddau ac sydd o gefndir ethnig leiafrifol yn teimlo iddi gael cymorth.





Er bod carcharorion sy'n wladolion tramor yn cael cymorth da mewn nifer bach o garchardai, yn rhy aml byddai cyswllt annigonol â staff Mewnfudo a Gorfodi'r Swyddfa Gartref yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch eu statws mewnfudo. Yn niffyg unrhyw wybodaeth neu benderfyniadau gan y Swyddfa Gartref, roedd rhai carchardai'n gwrthod cyfle i wladolion tramor symud i garchardai agored, cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) neu gael eu rhyddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref.

Mewn nifer o garchardai, nid oedd staff yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol gyda charcharorion nad oeddent yn siarad Saesneg. Dywedodd rhai carcharorion o wledydd tramor nad oeddent wedi cyfathrebu ag aelod staff yn eu hiaith eu hunain ers dod i'r carchar, fel eu bod yn teimlo'n ddryslyd ac wedi'u hynysu. Roedd y defnydd o garcharorion i gyfieithu, a hynny weithiau'n cynnwys gwybodaeth bersonol iawn, yn amhriodol.

Ar nodyn cadarnhaol, gwelsom fod cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu gan HMPPS mewn nifer o garchardai ar gyfer staff sy'n arwain ar niwroamrywiaeth. Fodd bynnag, roedd lefel eu sgiliau'n amrywiol, ac nid yw effaith y gwaith hwn wedi'i werthuso hyd yn hyn. Yng ngharchardai Caerlŷr, Risley, North Sea Camp a High Down gwelsom ddarpariaeth dda iawn ar gyfer asesu a gofal niwroamrywiaeth. Er hynny, fe'n siomwyd hefyd wrth weld nifer o wasanaethau digyswllt a dim gwasanaethau o gwbl mewn rhai carchardai.

## Nid oedd y gwaith i leihau'r risg o aildroseddu yn ddigon da

- **Roedd carcharorion yn dal i dreulio gormod o lawer o'u hamser dan glo yn eu celloedd.**
- **Nid oedd carchardai'n darparu gwaith ystyrlon, addysg a sgiliau i helpu carcharorion i symud ymlaen o droseddu.**
- **Roedd y mynediad at ymyriadau a rhaglenni achrededig yn rhy gyfyng.**
- **Roedd canfyddiadau gwael mewn arolygiadau wedi sbarduno gwelliannau mewn rhai carchardai.**

> **Mae'n fwy na'r ffaith bod y sefyllfa'n wael yn rhai o'r carchardai lle gallech chi ddisgwyl hynny – rhai o'r carchardai lleol Fictoraidd. Byddwn ni hefyd yn mynd i garchardai yng ngogledd Lloegr sydd heb yr un math o broblemau staffio ac sydd â chyfleusterau eithaf da, ac yn dal i weld gweithdai sy'n wag, ystafelloedd dosbarth â llond llaw o garcharorion ynddyn nhw, a charcharorion sy'n gwneud beth sydd, yn y diwedd, yn waith ffug. Gallai rhywun fod â swydd yn glanhau adain sy'n cymryd hanner awr yn ôl pob tebyg. Yr honiad yw ei fod yn cael ei gyflogi am y diwrnod, ond bydd yn treulio gweddill yr amser yn cicio ei sodlau. Mae'r syniad bod hynny'n unrhyw fath o baratoad, yn enwedig mewn carchardai categori C, i symud ymlaen… yn rhyfedd.**
>
> **Tystiolaeth lafar y Prif Arolygydd i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, 21 Tachwedd 2023**





**Gweithdy plymio yn Stocken**

Yn 2023–24, gweithgarwch pwrpasol oedd y maes lle cafwyd y perfformiad gwaethaf o hyd: roedd 32% o'n pryderon blaenoriaethol mewn carchardai oedolion yn ymwneud â'r prawf carchar iach hwn. Barnwyd bod y gweithgarwch pwrpasol yn wael neu heb fod yn ddigon da mewn 31 o'r 39 o garchardai oedolion a arolygwyd y flwyddyn hon, ac mewn 18 o sefydliadau roedd y canlyniadau wedi gwaethygu ers yr arolygiad blaenorol. Dim ond yng ngharchar Abertawe y gwelsom sgoriau gwell, er nad oeddent yn ddigon da eto.

**Ffigur 6: Mae sgoriau'r dyfarniadau carchar iach am weithgarwch pwrpasol wedi gostwng ers yr arolygiadau blaenorol o garchardai**

Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai oedolion dynion a menywod (n=38) yng Nghymru a Lloegr, 2023–24





Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

Roedd carchardai Preston a Moorland yn eithriadau amlwg yn yr ystad gaeedig gan fod y ddau wedi cael sgôr weddol dda am weithgarwch pwrpasol. Testun pryder neilltuol oedd mai Moorland oedd yr unig garchar hyfforddi y barnwyd ei fod yn weddol dda o ystyried y dylai'r carchardai hyn fod wedi cynnig cyfleoedd i garcharorion ddatblygu eu sgiliau cyn dychwelyd i'r gymuned. Roedd y canlyniadau yn yr ystad agored – mewn carchardai oedolion dynion a menywod – yn fwy cadarnhaol at ei gilydd (gweler 'Carchardai agored – rôl hanfodol', tudalen 40).

**Ffigur 7: Mae'r dyfarniadau carchar iach am weithgarwch pwrpasol yn dangos bod y canlyniadau'n fwy negyddol mewn carchardai caeedig i ddynion**

Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai oedolion dynion a menywod (n=39) yng Nghymru a Lloegr, 2023–24




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

## Mae carcharorion yn dal i dreulio gormod o amser dan glo

Er bod rhai gwelliannau o gymharu â'r cyfundrefnau cyfyngedig dros ben yn ystod y pandemig, yn y flwyddyn hon roedd nifer mawr o garcharorion yn dal i dreulio gormod o lawer o amser dan glo. Testun pryder oedd bod 81% o staff gweithredol rheng flaen a 79% o reolwyr gweithredol yn ein harolwg staff wedi cytuno neu gytuno i ryw raddau bod carcharorion yn cael digon o amser y tu allan i'w celloedd, er bod ein harolygwyr wedi barnu'n wahanol mewn llawer achos.

Yng ngharchar Bedford, dywedodd 67% o garcharorion eu bod yn treulio llai na dwy awr y diwrnod y tu allan i'w cell ac, yn ein gwiriadau o'r cofrestrau, gwelwyd bod 45% ohonynt dan glo yn ystod y diwrnod gwaith. Yn Dartmoor, roedd y gyfundrefn wedi'i chyfyngu mwy nag 80% o'r amser. Yn Lowdham Grange, dim ond grwpiau bach o garcharorion a oedd yn cael gadael eu celloedd ar y tro – gwaddol o'r pandemig – ac yn ystod ein harolygiad annibynnol o gynnydd yng ngharchar Leeds, roedd staff wedi cyfeirio at 'swigod COVID-19'. Yng ngharchar Peterborough (Menywod), roedd ein gwiriadau o'r cofrestrau'n dangos bod ychydig llai na chwarter y menywod dan glo yn ystod y diwrnod gwaith – dwywaith gymaint ag ar adeg ein harolygiad diwethaf – a barnodd yr arolygwyr nad oedd digon o weithgareddau adloniadol neu gymdeithasol i gynnal lles y menywod a'u helpu i wneud defnydd adeiladol o'u hamser sbâr.

Roedd dynion a oedd yn cael eu cadw ar wahân yn profi cyfundrefnau cyfyngedig dros ben, y rhan fwyaf ohonynt yn cael 30 munud y diwrnod y tu allan i'w cell.

## Nid oedd digon o weithgareddau ystyrlon i helpu carcharorion i wneud cynnydd

Roedd effeithiolrwydd yr addysg, hyfforddiant sgiliau a gweithgareddau gwaith yn y carchardai yn wael at ei gilydd ac wedi parhau i ddirywio, ac arweinwyr carchardai yn ei chael yn anodd dal eu darparwyr addysg yn atebol lle nad oedd gwasanaethau'n effeithiol. Dyfarniad ein partneriaid Ofsted am yr effeithiolrwydd cyffredinol mewn 33 o garchardai yn Lloegr oedd 'angen gwella' neu 'annigonol', a rhoddwyd yr un dyfarniad am ansawdd yr addysg mewn 32 ohonynt. Yng Nghymru, yr asesiad gan Estyn o'r ddarpariaeth dysgu a gwaith sgiliau yn Abertawe oedd ei bod yn gyfuniad o'r 'da' a'r 'digonol'.

Ymhlith y materion allweddol a godwyd yr oedd prinder mannau gweithgarwch i garcharorion, yr effaith negyddol ar y gallu i ddarparu cyrsiau addysgol a galwedigaethol oherwydd prinder staff a phresenoldeb carcharorion a chwricwla amhriodol, lle nad oedd amrywiaeth, ansawdd a maint yr addysg, hyfforddiant a gwaith yn rhoi'r sgiliau yr oedd ar garcharorion eu hangen ar gyfer cyflogaeth ar ôl eu rhyddhau. Roedd gormod o garcharorion heb ddigon o waith ac yn aml yn cyflawni tasgau diraddiol ac ailadroddus yn adeiniau'r carchar.

Er bod strategaeth darllen gan y rhan fwyaf o garchardai bellach, roedd arweinwyr wedi bod yn araf deg yn eu rhoi ar waith gan mwyaf a phrin oedd y rhai a oedd wedi gwella sgiliau darllen carcharorion yn sylweddol. Rhai eithriadau nodedig oedd carchardai Swaleside ac Askham Grange.

## Dim digon o fynediad at ymyriadau a rhaglenni achrededig

Er bod y cynlluniau dedfryd ar gyfer nifer mawr o garcharorion yn argymell eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglenni achrededig sy'n gallu helpu i leihau'r risg o brofi niwed yn y dyfodol, mewn llawer achos nid oedd carchardai'n rhedeg cyrsiau neu'n cynnig digon o leoedd arnynt fel bod y rhestrau aros yn hir.

> **Roedd nifer yn teimlo'n ddiymadferth, heb allu symud ymlaen â'u dedfryd neu gwblhau rhaglenni achrededig a oedd heb fod ar gael a oedd wedi'u cynnwys mewn nifer o'u cynlluniau dedfryd.**
> **Lindholme**

O'r 1,000 a mwy o garcharorion a dderbynnir yn Stoke Heath bob blwyddyn, dim ond 35 a oedd mewn lle i gwblhau rhaglenni achrededig yn 2023–24. Yn Lowdham Grange, roedd yn debygol y byddai tua 40% o'r rheini a gafodd ddedfryd amhenodol yn gorfod aros am flynyddoedd i gael lle ar raglenni i ddelio ag ymddygiad treisgar gan fod eraill yn cael blaenoriaeth drostynt.

Yn ein harolwg, dynion mewn carchardai sy'n dal pobl a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol a oedd yn lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi cwblhau rhaglen ymddygiad troseddol (36%) neu raglen arall (29%). Yn Dartmoor a Moorland, y ddau ohonynt yn dal niferoedd sylweddol o ddynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol, nid oedd unrhyw raglenni o'r fath yn cael eu darparu ac, oherwydd pwysau'r boblogaeth, roedd yn anodd trefnu i'w trosglwyddo i garchardai eraill i gwblhau rhaglenni. Yn Dartmoor, roedd un carcharor wedi bod yn aros am bedair blynedd.




**Hyrwyddo darllen yn Askham Grange**

## Roedd rhai canfyddiadau gwael mewn arolygiadau wedi sbarduno gwelliannau

Roeddem yn aml wedi beirniadu diffyg uchelgais ar ran rheolwyr wrth hyrwyddo cyfundrefnau mwy cynhyrchiol. Ar nodyn cadarnhaol, yn dilyn pryderon a godwyd mewn arolygiadau cynharach, roedd adolygiadau annibynnol o gynnydd mewn nifer o garchardai, yn cynnwys Aylesbury, Risley, Ynys Wyth a Norwich, wedi canfod bod gwelliannau wedi'u gwneud yn y maes hwn o fewn cyfnod cymharol fyr. Roedd y camau i gyflwyno penaethiaid addysg, sgiliau a gwaith hefyd yn galonogol, ond nid oedd eu heffaith yn gwbl amlwg eto.

**Adolygiad Annibynnol o Gynnydd yng ngharchar Aylesbury**

Roedd y gwaith ar wella'r amser y tu allan i'r gell er mwyn sicrhau rheolwaith dyddiol mwy cyson wedi bod yn llwyddiannus dros ben.

- Roedd 75% o'r boblogaeth heb fod dan glo am fwy nag wyth awr erbyn hynny.
- Roedd strategaeth darllen newydd ar waith ac roedd yn dechrau cael effaith.
- Roedd arweinwyr wedi dechrau gwneud gwell defnydd o'r mannau gweithgarwch a oedd ar gael – o ganlyniad, roedd diweithdra wedi gostwng o 40% i 25%.





**Garddio yn Aylesbury**

## Mae methu â pharatoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau yn creu risgiau

- **Roedd diffyg o ran rheolaeth effeithiol ar droseddwyr a gwaith allweddol mewn nifer o garchardai.**
- **Roedd y ddarpariaeth ailsefydlu yn ddigyswllt gyda bylchau sylweddol.**
- **Roedd prinder staff yn tanseilio gwaith ar ddiogelu'r cyhoedd.**
- **Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i gynnal perthnasoedd teuluol.**
- **Roedd carchardai agored yn chwarae rhan hanfodol wrth baratoi dynion a menywod ar gyfer eu rhyddhau.**

**Ffigur 8: Mae'r dyfarniadau carchar iach ar baratoi ar gyfer rhyddhau yn dangos canlyniadau mwy cadarnhaol i garcharorion mewn carchardai agored a charchardai menywod, a charchardai sy'n dal pobl a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol**

Arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai oedolion dynion a menywod (n=39) yng Nghymru a Lloegr, 2023–24




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF

## Diffyg o ran rheolaeth effeithiol ar droseddwyr a gwaith allweddol

Roedd carchardai'n aml yn methu â chyflawni eu rôl hanfodol mewn paratoi carcharorion sy'n dod at ddiwedd eu dedfryd i ddychwelyd i'r gymuned.

Roedd prinder rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POMs) yn rhwystro'r gallu i reoli troseddwyr yn effeithiol a gallu troseddwyr i weithio drwy eu cynlluniau dedfryd. Nid oedd y cyswllt rhwng POMs a charcharorion yn ddigon da eto.

> **'Dim ond hanner y rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POMs) a hyfforddwyd gan y gwasanaeth prawf a oedd mewn swydd. O ganlyniad i hyn roedd y llwythi achosion yn feichus ac roedd y POMs yn eu blaenoriaethu'n briodol drwy weithio gyda charcharorion ar bwyntiau tyngedfennol yn eu dedfryd, fel gwrandawiadau parôl… Roedd lefelau'r cysylltu'n annigonol ac roedd nifer mawr iawn wedi cwyno wrthym am y ffordd roedd hyn wedi effeithio ar eu gallu i symud ymlaen yn eu dedfryd.' Lindholme**

Roedd y diffyg cyswllt hwn yn cael ei waethygu mewn llawer achos gan waith allweddol (gweler y Rhestr Termau) a oedd yn anfynych, o ansawdd gwael a heb ei gyfeirio'n ddigonol at wneud cynnydd. Roedd hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o anobaith mewn carchardai diogelwch uchel fel Whitemoor a Long Lartin lle'r oedd dynion yn cwblhau dedfrydau hir iawn.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd y rhyngweithio drwy waith allweddol yn Ashfield yn drwyadl ac yn gyson, ac roedd y cofnodion gan staff yn nodiadau achos y carcharor yn rhoi sylw i anghenion yr unigolyn ac o ansawdd da iawn. Yng ngharchar High Down, roedd gweithiwr allweddol penodedig ar gyfer carcharorion a oedd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol, ac yn Moorland roeddem wedi adrodd yn ffafriol am y gwaith allweddol a gyflawnwyd gydag oedolion ifanc, carcharorion yn cwblhau dedfryd o gyfnod amhenodol yn y carchar er diogelu'r cyhoedd (IPPs) a'r rheini sydd ag anawsterau personol cymhleth.

Yng ngharchardai Caerlŷr, Abertawe, Brinsford a Moorland y gwelwyd rhai o'r canlyniadau gorau wrth baratoi ar gyfer rhyddhau y tu allan i'r ystad agored (gweler tudalen 39). Roedd ganddynt unedau rheoli troseddwyr a phob swydd wedi'i llenwi, llwythi achosion rhesymol ac arweinyddiaeth gefnogol, effeithiol. Yn y carchardai hyn, gwelsom rai enghreifftiau da hefyd o waith un-i-un a oedd yn cwrdd ag anghenion y carcharorion o ran adsefydlu.

## Darpariaeth ddigyswllt ar gyfer ailsefydlu gyda bylchau a oedd yn peri pryder

Roedd timau ailsefydlu yn dal i wynebu heriau yn dilyn uno'r gwasanaeth prawf yn 2021, a hynny wedi arwain at ystyriaethau contractiol ac anawsterau staffio. Roedd bylchau yn y ddarpariaeth i'w gweld yn aml ac roedd y strwythur rheoli cymhleth yn peri dryswch i garcharorion ynghylch y cymorth a oedd ar gael cyn eu rhyddhau. Fodd bynnag, roedd y camau i gyflwyno canolfan gyflogaeth yn ddatblygiad addawol mewn nifer o garchardai.

### Anhawster wrth sicrhau cartref ar ôl rhyddhau carcharorion

Gwelsom eto fod carchardai a oedd yn ei chael yn anodd darparu cymorth llety i garcharorion, yn cynnwys rhai a oedd yn rhyddhau carcharorion er nad oedd ganddynt swyddogaeth ailsefydlu. Er enghraifft, roedd Lindholme – nad yw'n garchar ailsefydlu – wedi rhyddhau 86 o garcharorion yn y 12 mis blaenorol ac roedd Lowdham Grange, sydd heb swyddogaeth ailsefydlu na gweithwyr tai ar y safle, wedi rhyddhau 80.

Roedd data ar gyfer Dovegate am y 12 mis blaenorol yn dangos bod 29% o'r carcharorion a ddedfrydwyd wedi'u rhyddhau heb lety i fynd iddo. Yn Bedford, roeddem yn pryderu o weld bod 30% o garcharorion wedi'u rhyddhau'n ddigartref a bod 42% wedi'u rhyddhau i lety anghynaliadwy.

### Anghysonder yn y cymorth i garcharorion ar remánd

Er bod y niferoedd sy'n cael eu cadw yn y carchar ar remánd yn fwy nag erioed o'r blaen ac er gwaethaf y pryderon a fynegwyd gennym y flwyddyn ddiwethaf am hepgor y cohort hwn o'r contractau prawf unedig, roeddem yn dal i weld bylchau yn y ddarpariaeth. Yng ngharchar Bryste, nid oedd y cymorth tai yn cynnwys carcharorion ar remánd 'felly nid oedd neb i helpu'r carcharorion hyn i gadw eu tai neu reoli eu tenantiaethau'. Yng ngharchar Birmingham, cawsom fod diffyg cymorth a oedd yn 'annerbyniol', yn enwedig o ystyried bod mwy na 60% o'i boblogaeth ar remánd neu heb eu dedfrydu.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd adolygiad annibynnol o gynnydd yng ngharchar Leeds yn dangos cynnydd rhesymol ac roedd ymdrechion cadarnhaol i gynorthwyo'r poblogaethau ar remánd yn Dovegate a Chaerlŷr. Fodd bynnag, yn ein hadolygiad annibynnol o gynnydd yng ngharchar Pentonville, rhybuddiwyd bod 'y cymorth yn dibynnu ar frwdfrydedd ac ymroddiad staff yn hytrach na phroses ffurfiol, strwythuredig ac roedd bwlch o hyd o ran cyllid ar gyfer cymorth ailsefydlu i'r boblogaeth gynyddol o garcharorion ar remánd'.

Yn yr ystad menywod, roedd adolygiad annibynnol o gynnydd yng ngharchar Eastwood Park wedi dangos nad oedd HMPPS wedi gwneud cynnydd ystyrlon eto ar ddarparu'r holl fathau o help ar gyfer ailsefydlu i fenywod ar remánd, er mai menywod ar remánd a heb eu dedfrydu oedd 27% o'r boblogaeth. Fodd bynnag, yn Peterborough roedd menywod yn gallu cael help effeithiol ar gyfer ailsefydlu yng nghanolfan 'Inside links' y carchar.

Mae carcharorion ar remánd yn fwy tebygol na charcharorion a ddedfrydwyd o'u niweidio eu hunain neu gyflawni hunanladdiad, felly roedd yn destun pryder neilltuol bod ein harolwg yn dangos bod canfyddiadau mwy negyddol o lawer mewn nifer o feysydd ymysg carcharorion ar remánd a heb eu dedfrydu. Dywedodd 52% ohonynt eu bod yn ei chael yn anodd cysylltu â'u teulu wrth ddod i'r carchar am y tro cyntaf, o gymharu â 25% o garcharorion a ddedfrydwyd, ac roedd mwy o garcharorion ar remánd nag o'r rheini a ddedfrydwyd wedi dweud bod problemau ganddynt wrth ddod i'r carchar am y tro cyntaf, eu bod yn cael llai o amser y tu allan i'r gell a'u bod yn wynebu heriau wrth gael gofal iechyd.

## Roedd prinder staff yn tanseilio diogelwch y cyhoedd

Roeddem wedi adrodd ar wendidau yn y trefniadau rheoli er diogelu'r cyhoedd mewn 15 carchar y flwyddyn hon, a'r rhain yn ymwneud yn aml â phrinder staff. Er enghraifft, yng ngharchar Birmingham, roedd un o'r carcharorion a oedd yn peri'r risg fwyaf yn cael ei reoli gan POM a oedd heb dderbyn hyfforddiant addas.

Roedd y cynllunio er diogelu'r cyhoedd wrth ryddhau carcharorion hefyd yn cael ei lesteirio gan brinder swyddogion prawf yn y gymuned. Byddai carchardai'n treulio cryn amser yn mynd ar ôl swyddogion er mwyn trosglwyddo achosion, yn ogystal â cheisio cael cadarnhad o lefelau rheoli risg carcharorion o dan y trefniadau amlasiantaethol er amddiffyn y cyhoedd (MAPPA).

Roeddem wedi codi pryderon am amseroldeb y camau a gymerwyd ar hyn mewn carchardai, yn cynnwys carchardai Littlehey a Highpoint. Yn Highpoint, cawsom fod 30 o garcharorion a oedd o fewn chwe mis i'w dyddiad rhyddhau nad oeddent wedi cael cadarnhad eto o'u lefel MAPPA.

Er gwaethaf newid ym mholisi HMPPS a oedd yn golygu bod llai o garcharorion yn cael eu monitro drwy lythyr neu dros y ffôn oherwydd natur eu trosedd, gwelsom fod oedi'n digwydd yn aml wrth wrando ar alwadau a chwblhau adolygiadau, a hefyd fod diffyg dealltwriaeth o bwrpas monitro.

## Prin oedd y cymorth i gynnal perthnasoedd teuluol

Er mor bwysig yw cysylltiadau teuluol i garcharorion a'u teuluoedd y tu allan i'r carchar, ac er bod tystiolaeth bod cysylltiad rhwng hynny a gostwng aildroseddu, roedd y cymorth i gynnal perthnasoedd teuluol yn gyfyngedig mewn llawer achos. Yn ein harolwg, dim ond 29% o ddynion a ddywedodd eu bod wedi gallu gweld eu teulu neu ffrindiau wyneb yn wyneb yn y mis diwethaf, a'r ffigur hwnnw'n disgyn i 17% yn yr ystad diogelwch uchel. Roedd pwysau poblogaeth hefyd yn golygu bod nifer mawr o garcharorion yn cael eu cadw'n bellach oddi cartref.

Roedd y diffyg sylw i berthnasoedd teuluol yn ddifrifol yng ngharchar Dartmoor, lle'r oedd nifer y cynigion o ymweliadau cymdeithasol a dderbyniwyd wedi haneru ers y flwyddyn cynt ac yn dal i ostwng; er gwaethaf hyn, nid oedd arweinwyr wedi monitro data am ymweliadau'n ddiweddar ac nid oedd ganddynt gynllun i ddelio â'r mater.

Roedd y rhan fwyaf o garchardai'n darparu ffôn yn y gell, roedd nifer bach yn cynnig gliniaduron i'w defnyddio gan garcharorion ac roedd y rhan fwyaf yn darparu technoleg ar gyfer galwadau fideo, er mai dim ond 16% o ddynion a ddywedodd wrthym eu bod wedi cysylltu â ffrindiau neu'r teulu drwy alwad fideo yn y mis blaenorol.

Mae diwrnodau teulu – ymweliadau estynedig yn para nifer o oriau, a gweithgareddau a rhaglenni thematig wedi'u trefnu ar eu cyfer yn aml – wedi hen ennill eu plwyf mewn nifer o garchardai, ond prin iawn oedd y rheini a gynigiai gyrsiau mewn rhianta neu berthnasoedd.

## Carchardai agored – rôl hanfodol

Carchardai agored oedd y rheini a roddai'r canlyniadau gorau o'r holl gategorïau carchar, a mwy o sylw'n cael ei roi i adsefydlu a helpu carcharorion i baratoi at eu rhyddhau. Fodd bynnag, roedd lleoedd heb eu llenwi mewn carchardai agored heb fod rheswm clir am hynny. Pan arolygwyd carchar rhagorol Askham Grange, dim ond 73% o'i leoedd a oedd wedi'u llenwi, er bod digon o fenywod yn yr ystad gaeedig wedi'u hasesu'n addas i fod mewn carchar agored.

Yn ein harolwg, dynion mewn carchardai agored oedd yn fwyaf tebygol o gytuno bod eu profiad yn y carchar wedi'u gwneud yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol (69%), o gymharu â dynion mewn carchardai â swyddogaethau eraill, fel carchardai lleol (58%) neu garchardai hyfforddi categori C (57%). Yng ngharchar Ford, gwelsom fod nifer o gyfleoedd i ddynion weithio y tu allan i'r carchar neu fynychu cyrsiau ac roedd arlwy rhagorol o addysg a gwaith yn Thorn Cross. Roedd yn siom bod Leyhill yn cynnig llai o gyfleoedd a barnwyd ei fod yn wael o ran darparu gweithgarwch pwrpasol.

Yn yr ystad menywod, gwelsom ddefnydd rhagorol o drefniadau ROTL. Yn East Sutton Park, roedd mwy nag 80% o fenywod yn cael defnyddio trefniadau ROTL ac roedd nifer ohonynt yn gweithio'n amser llawn am dâl yn y gymuned i gwmnïau cenedlaethol, a hynny'n golygu bod modd iddynt drosglwyddo i waith yn agos i'w cartref ar ôl eu rhyddhau'n derfynol.

Roedd yn rhagorol bod 60% o'r menywod a ryddhawyd i gael eu cyflogi am dâl yn parhau mewn cyflogaeth chwe mis yn ddiweddarach. Yn Askham Grange, roedd mwy na thri chwarter y boblogaeth yn gwneud defnydd o ryw fath o drefniant ROTL, ac roedd bron hanner y menywod mewn lleoliadau addysg, sgiliau neu waith yn y gymuned, llawer ohonynt mewn gwaith cyflogedig.

Roedd y gwaith allweddol yn y ddau garchar agored i fenywod hefyd yn arbennig o effeithiol, ac roedd y ddarpariaeth yn Askham Grange ymysg y gorau a welsom – roedd yn ystyrlon, yn ennyn diddordeb ac yn helpu carcharorion i symud ymlaen yn eu dedfryd, a byddai staff yn cysylltu â'r carcharorion dan eu gofal bob pythefnos gan mwyaf. Yn East Sutton Park, byddai gweithwyr allweddol ym ymgynghori'n gyson ag adrannau eraill, roedd ganddynt wybodaeth fanwl am y menywod dan eu gofal, ac roeddent yn hyrwyddo cynnydd ac adsefydlu; yn ein harolwg yno, dywedodd y rhan fwyaf o fenywod (98%) fod ganddynt weithiwr allweddol, ac roedd 90% o'r rheini'n gweld eu bod o gymorth.

**Perthnasoedd â phlant a'r teulu – elfen ganolog yng ngofal menywod yn y carchar**

Mae nifer mawr o fenywod sydd yn y carchar yn cael eu cadw ymhell o gartref y teulu, a dim ond 5% o blant sy'n aros yng nghartref y teulu pan gaiff y fam ei charcharu (adroddiad Corston, 2007). Mae cynnal cysylltiadau â phlant a'r teulu yn elfen ganolog yn aml yn y gofal am fenywod yn y ddalfa.

Yn Peterborough, dim ond oddeutu un rhan o dair o fenywod a ddywedodd eu bod wedi gallu gweld eu teulu neu ffrindiau fwy nag unwaith yn y mis diwethaf ar gyfer ymweliad cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd cwrs 'Mothering Justice' wedi'i ddarparu i staff a charcharorion i hybu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o sefyllfa menywod yn y ddalfa. Roedd gweithwyr o'r tîm ymgysylltu â theuluoedd yn darparu help unigol i fenywod, yn cyfathrebu'n gyson â gwasanaethau plant ac wedi dechrau gweithio gydag ysgolion fel y byddai menywod yn gallu cael adroddiadau ysgol a bod yn bresennol mewn nosweithiau rhieni drwy alwad fideo: roedd pob un o'r rhain yn welliannau pendant.

Roedd camera fideo ar gael i famau yn yr uned mamau a babanod fel y gallent dynnu lluniau o'u plant ar gerrig milltir allweddol i'w cadw neu eu hanfon at aelodau o'r teulu, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r fenter hon. Roedd mamau yn yr uned hefyd yn mentora mamau beichiog, gan ddarparu cymorth rhagorol, er nad oedd cyrsiau rhianta neu ôl-enedigol ar gael.

Yn East Sutton Park ac Askham Grange, gwnaed defnydd helaeth o drefniadau ROTL i alluogi menywod i dreulio amser gyda'u teulu, ac roedd y farn ymysg menywod am y cyfleoedd hyn yn gadarnhaol iawn.



**Neuadd ymweliadau Dartmoor**

# Dau

## Plant yn y carchar – Diffyg cyfeiriad, dirywiad a methiannau



**Yn 2023–24, roeddem wedi cyhoeddi pum adroddiad yn dilyn arolygiadau o sefydliadau sy'n dal plant, yn cynnwys pedwar sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) a'r ganolfan hyfforddi ddiogel (STC) yn Oakhill.**

Mae canlyniadau'r arolwg o blant yn cwmpasu'r pedwar sefydliad troseddwyr ifanc ac un ganolfan hyfforddi ddiogel a arolygwyd y flwyddyn hon.

- **Cawsom fod dirywiad a diffyg cyfeiriad yn yr amodau i blant, er bod adnoddau sylweddol yn yr ystad ieuenctid.**
- **Cafwyd methiannau wrth reoli ymddygiad ac roedd gormod o ddibyniaeth ar gadw plant ar wahân.**
- **Roedd perthnasoedd gwael rhwng staff a phlant.**
- **Nid oedd plant yn cael yr addysg roedd ganddynt hawl i'w chael.**
- **Roedd sefydliadau plant yn dal mwy o oedolion ifanc a phlant ar remánd.**

## Dirywiad a diffyg cyfeiriad mewn amodau

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa wedi gwario £197 miliwn yn gofalu am oddeutu 500 o blant – cryn dipyn yn fwy na £300,000 am bob plentyn.[1]


Er hynny, gwelsom fod adnoddau'n cael eu gwastraffu am nad oedd athrawon, staff gofal iechyd a gweithwyr achos ailsefydlu yn gallu mynd at y plant oherwydd prinder staff gweithredol yn y rheng flaen neu ddiffyg ystafelloedd cyfarfod. Roedd diffyg atebolrwydd am fethiannau, er bod yr uwch dimau yn cynnwys nifer mawr o aelodau; er enghraifft, yn Cookham Wood roedd 24 o arweinwyr uwch mewn sefydliad a oedd yn dal dim ond 77 o blant.

Am nad oes eto gynllun cenedlaethol ar gyfer diwygio parhaus, roedd yn anochel bod y ddibyniaeth ar sefydliadau troseddwyr ifanc yn parhau, er gwaethaf y methiannau wrth addysgu plant a'u cadw'n ddiogel sy'n bod ers amser hir.

[1] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon HMPPS 2022-2023 (https://www.gov.uk/government/publications/hmpps-annual-report-and-accounts-2022-23)

**Ffigur 9: Dirywiad yn y canlyniadau ar gyfer gweithgarwch pwrpasol mewn sefydliadau plant a'r canlyniadau o ran diogelwch yn fwy ansefydlog o flwyddyn i flwyddyn**

Dyfarniadau carchar iach 'da' a 'gweddol dda' yn yr arolygiadau o sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr gan Arolygiaeth Carchardai EF ers blwyddyn adroddiad blynyddol 2013–14




Ffynhonnell: Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF. Sylwer: gwnaed dyfarniadau ar wahân ar gyfer sefydliad Wetherby ac uned Keppel tan 2023–24. Nid oedd pob un o'r sefydliadau plant wedi'i arolygu ym mhob blwyddyn adroddiad blynyddol. Nid yw sefydliadau a gaewyd yn ystod y cyfnod hwn wedi cael eu cynnwys.

## Methiant wrth reoli ymddygiad

Yn yr holl sefydliadau heblaw Parc, roedd diogelwch ('helpu a diogelu' mewn canolfannau hyfforddi diogel) wedi dirywio ac nid oedd yn ddigon da. Yn ein harolwg, roedd 40% o blant wedi teimlo eu bod yn anniogel wrth fod yn y ddalfa ac roedd 16% yn teimlo'n anniogel ar adeg yr arolygiad.

Ac eithrio yn Parc, roedd arolygwyr wedi cael bod dirywiad o ran rheoli ymddygiad ar draws yr ystad. Yn y rhan fwyaf o safleoedd, roedd lefelau uchel o drosiant staff, salwch ac anallu i adleoli swyddogion am resymau eraill yn peri bod arweinwyr yn ei chael yn anodd darparu hyd yn oed y gweithgareddau statudol sylfaenol, yn cynnwys addysg ac ymarfer. O ganlyniad i hyn, ni ddarparwyd cymhellion ar gyfer ymddygiad da, yn cynnwys mwy o amser y tu allan i'r gell neu weithgareddau ychwanegol, ac nid oedd rheolwyr yn gallu gweithredu sancsiynau am ymddygiad gwael, hyd yn oed pan oedd yn ddifrifol.

Roedd y methiannau hyn wedi arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwael, gyda mwy o arfau'n cael eu gwneud yn Cookham Wood ac achosion difrifol o anhrefn yn Werrington. Yn niffyg dull cyson, effeithiol ac ysgogiadol i reoli ymddygiad, roedd arweinwyr yn dibynnu'n llwyr bron ar gamau i gadw plant ar wahân i'w gilydd er mwyn lleihau trais. Roedd hyn wedi mynd allan o reolaeth; yn Cookham Wood, roedd staff yn ceisio rheoli 583 o blant a oedd wedi'u cadw ar wahân i'w gilydd. Roedd hyn yn cael effaith andwyol am nad oedd plant yn aml yn gallu cael mynediad at addysg, rhaglenni grŵp ar ymddygiad troseddol nac ymweliadau am eu bod yn cael eu cadw ar wahân.

Un canlyniad arall i'r we gymhleth o drefniadau cadw ar wahân oedd mai ychydig iawn o amser y byddai plant yn ei gael y tu allan i'w celloedd. Ar ddyddiau'r wythnos, yr amser cyfartalog a dreuliwyd heb fod dan glo oedd dim ond pedair awr a hanner yn Wetherby, pedair awr yn Werrington, a thair awr a hanner yn Cookham Wood. Er mor isel yw'r ffigurau hyn, roedd rhai plant na fyddent bron byth yn cael peidio â bod dan glo. Yn rhy aml, nid oedd plant a wahanwyd o dan reol 49 y sefydliadau troseddwyr ifanc (yn cyfateb i arwahanu yn yr ystad oedolion) am fod asesiad yn dangos eu bod yn achosi risg i bobl eraill neu am eu bod yn ofni dod allan o'u cell, yn cael dim neu nemor ddim amser heb fod dan glo.

> **Roedd carcharu plant ar eu pen eu hunain wedi dod yn norm yn y sefydliad. Roedd mwy na chwarter y boblogaeth yn cael ei gadw'n gwbl ar wahân i'r brif boblogaeth. Roedd y rhan fwyaf yn cael eu cloi yn eu celloedd am 23.5 awr y diwrnod heb ddim rhyngweithio ystyrlon â phobl… nid oedd yn anarferol i'r grŵp hwn o blant beidio â dod allan o'u celloedd am ddiwrnodau benbwygilydd. Nid oedd addysg nac ymyriadau eraill bron byth yn cael eu darparu. Roedd dau fachgen a oedd ag angen eu hamddiffyn rhag eu cymheiriaid wedi'u cadw dan yr amodau hyn am fwy na 100 diwrnod. Cookham Wood**

Hyd yn oed yn Parc, lle mai ychydig o ddefnydd o wahanu a welsom o'r blaen, roedd y sefyllfa wedi dirywio. Er bod rhai o'r plant a gadwyd ar wahân yn cael rheolwaith dyddiol amrywiol, yn cynnwys addysg, cyfoethogi a hyd at naw awr y diwrnod y tu allan i'w celloedd, roedd y rheolweithiau ar gyfer eraill yn fwy cyfyngedig o lawer gyda 90 munud y diwrnod ar y mwyaf heb fod dan glo.

## Perthnasoedd gwael rhwng staff a phlant

Yn ein harolwg, dim ond 48% o blant a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal gan staff. Oherwydd y trefniadau cymhleth ar gyfer cadw ar wahân a'r defnydd helaeth o arwahanu, nid oedd amser ar gael i'r staff feithrin perthnasoedd da er mwyn gallu rheoli ymddygiad yn effeithiol. Ac eithrio yn Parc, nid oedd arweinwyr sefydliadau troseddwyr ifanc yn gallu sicrhau un sgwrs breifat rhwng plant ac aelod staff bob wythnos, er bod nifer y staff yn Cookham Wood, er enghraifft, yn fwy na phum gwaith nifer y plant.

**Arweinyddiaeth a diwylliant da yn sefydliad troseddwyr ifanc Parc**

Yn sefydliad Parc, roedd arweinwyr wedi llwyddo i gynnal diwylliant cefnogol iawn. Yn ein harolwg o staff, dywedodd 63% o ymatebwyr ei bod bob amser yn hawdd mynd at arweinwyr a dywedodd 72% eu bod bob amser yn gosod safonau ymddygiad uchel i staff, tra oedd 60% wedi dweud bod ymddygiad gwael gan staff yn cael ei herio bob tro a dywedodd 49% fod arweinwyr bob amser yn canmol gwaith da. Roedd ein canfyddiadau'n ategu'r barnau hyn. Roedd arweinwyr uned a rheolwyr canol yn arbennig o arloesol ac effeithiol, er enghraifft wrth ddatblygu'r rhaglen gyfoethogi ragorol a gyflwynwyd ers yr arolygiad blaenorol.

Roedd y gefnogaeth hon i staff wedi'i hadlewyrchu yng nghanfyddiadau'r plant, 80% ohonynt yn teimlo eu bod yn derbyn gofal. Byddai staff yn elwa o'r perthnasoedd hyn drwy gymell plant i ymddwyn yn dda a'u hannog i gymysgu â'u cymheiriaid.

## Plant nad ydynt yn derbyn addysg

Oherwydd anallu i reoli gwrthdaro, roedd plant yn treulio gormod o lawer o amser dan glo yn eu celloedd ac anaml y byddent yn cael eu hawl statudol i dderbyn addysg. Ar y rhan fwyaf o safleoedd, gwelsom blant nad oeddent yn gallu mynychu gwersi am na allent gymysgu ag eraill yn y dosbarth. Nid oedd yr addysg a ddyrannwyd iddynt yn seiliedig ar anghenion neu ddyheadau'r plant ond, yn hytrach, ar bwy y gallent gymysgu â nhw yn yr ystafell ddosbarth.

Byddai plant yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer addysg yn gyson ac, yn Cookham Wood, Wetherby a Werrington byddent yn aml yn treulio mwy o amser yn symud rhwng ystafelloedd dosbarth nag yn y gwersi eu hunain. Hyd yn oed pan oeddent wedi cyrraedd, nid oedd safon yr addysgu yn ddigon da yn yr holl sefydliadau troseddwyr ifanc, yn enwedig dysgu Saesneg a mathemateg. Yn ein harolwg, dim ond 53% a ddywedodd eu bod wedi dysgu rhywbeth a fyddai o gymorth iddynt ar ôl eu rhyddhau.

Roedd cyfyngiadau cadw ar wahân hefyd yn achosi problemau o ran cael mynediad at ofal iechyd, er bod lefelau staffio uchel yn golygu bod modd aildrefnu apwyntiadau'n ddioed.




**Arf y cafwyd hyd iddo yn Cookham Wood**

## Mwy o oedolion ifanc a phlant yn cael eu cadw ar remánd

Oherwydd pwysau poblogaeth, ni fyddai oedolion ifanc yn cael eu trosglwyddo'n rheolaidd i'r ystad oedolion yn fuan ar ôl eu pen blwydd yn 18 oed. Yn sefydliad Parc, er enghraifft, roedd hyn yn golygu bellach fod 35% o'r boblogaeth yn 18 mlwydd oed, a chyfran sylweddol ohonynt â gwahanol anghenion am addysg a chyflogaeth.

Er y gallai'r arfer hwn fod yn briodol mewn rhai achosion a bod o gymorth i'r unigolyn, ni ddylai ddigwydd ar draul y gallu i reoli plant yn y ddalfa yn effeithiol ac ymateb i'w anghenion.

O'r boblogaeth o blant dan gadwad yng Nghymru a Lloegr, mae mwy na 40% yn blant ar remánd. Y casgliad yn yr adroddiad ar ein harolygiad thematig ar y cyd ag Arolygiaeth Prawf EF oedd nad yw remandio bob amser yn angenrheidiol, a bod y canlyniadau iddo'n sylweddol.

> **"Mae'r cynnydd yng nghyfran y plant sydd ar remánd, a'r cyfnodau hir a dreulir ar remánd, yn peri pryder. Mae'n rhoi pwysau ychwanegol ar y sector sefydliadau troseddwyr ifanc a'r sector canolfannau hyfforddi diogel, gan ei gwneud yn fwy anodd sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r holl blant dan gadwad."**
>
> **Cydarolygiad thematig o waith gyda phlant sydd ar remánd mewn dalfeydd ieuenctid**



**Iard ymarfer yn sefydliad troseddwyr ifanc Parc**

# Tri

## Dalfeydd y llysoedd yn parhau'n ddiogel, ond gwan yw'r cynllunio ar gyfer rhyddhau



**Mae'r adran hon wedi'i seilio ar y canfyddiadau o arolygiadau o gyfleusterau dalfeydd llys mewn tri chlwstwr: Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Hertford; Surrey a Sussex; a Humber a De Swydd Efrog.**

- **Roedd y perthnasoedd rhwng asiantaethau wrth ddarparu dalfeydd llys yn parhau i wella, ond yn rhy aml roedd canlyniadau i'r rheini dan gadwad yn cael eu llesteirio gan brinder staff a phwysau ehangach.**
- **Roedd rhai gwelliannau pendant yn mhrofiad y rheini dan gadwad.**
- **Roedd y cynllunio ar gyfer rhyddhau yn dal i fod yn wan.**

## Prinder staff yn llesteirio canlyniadau i bobl yn y ddalfa

Roedd arweinwyr yn y tair prif asiantaeth sy'n gyfrifol am ddalfeydd llys – Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF), y Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion (PECS) a'r darparwyr gwasanaethau hebrwng a dalfeydd dan gontract, GEOAmey a Serco – yn cydweithio'n effeithiol i gydbwyso eu gwahanol swyddogaethau o ran cyflawni busnes y llysoedd a gofalu am bobl yn y ddalfa.

Er hynny, gwelwyd ym mhob un o'r tri arolygiad fod prinder staff ymysg y darparwyr gwasanaethau hebrwng a dalfeydd dan gontract. Yn aml, byddai diffyg staff yn arwain at sefyllfa lle'r oedd rhai dan gadwad yn cyrraedd y llys yn hwyr, at oedi mewn achosion llys ac at ohirio symud pobl i'r carchar os oeddent wedi'u remandio neu eu dedfrydu. Cafwyd oedi pellach hefyd lle'r oedd rhai dan gadwad wedi'u dadleoli i garchardai y tu allan i'r ardal, o ganlyniad yn aml i bwysau poblogaeth y carchardai.

## Roedd profiad y rheini dan gadwad wedi gwella

Mynegwyd barn gadarnhaol ar y cyfan gan rai dan gadwad am eu triniaeth yn nalfeydd y llysoedd ac roeddem wedi nodi amryw o welliannau y flwyddyn hon, yn cynnwys rhywfaint yn fwy o hyder ymysg staff o ran defnyddio gwasanaethau cyfieithu i gyfathrebu â rhai dan gadwad nad ydynt yn siarad Saesneg. Er hynny, roedd angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhai niwroamrywiol sydd dan gadwad, a rhy brin o lawer oedd y cyfleusterau dalfa mewn llysoedd a oedd yn hygyrch i'r rheini sydd ag anableddau.

Er i ni ganfod rhai arferion anaddas a gormodol o ran chwilio a gefynnu, anaml yr oedd grym yn cael ei ddefnyddio, a hynny gan mwyaf ar lefel isel a oedd yn cael ei gostwng yn gyflym, ac roedd y goruchwylio'n gwella. Gwelwyd gwelliant mawr hefyd o ran goruchwylio mesurau diogelu a'r ymwybyddiaeth ohonynt, ac yn y ffordd roedd y rhan fwyaf o blant yn cael eu trin.

> **Yn nalfeydd llys ynadon Sheffield, roedd y mannau cadw yn llawer mwy addas i blant. Roedd dwy ystafell, y cyntaf o'u bath a welwyd gennym, wedi cael eu hadnewyddu a'u cyfarparu'n benodol i blant, gyda lliwiau cynhesach, carpedi gosod, seddi cyfforddus, lluniau a set deledu.**
> **Humber a De Swydd Efrog**

Roeddem yn falch o weld y canlyniadau i fuddsoddi sylweddol mewn gwasanaethau iechyd, yn cynnwys darparu cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig yn holl gyfleusterau dalfa'r llysoedd. Er hynny, nid oedd staff y dalfeydd wedi cael digon o hyfforddiant eto mewn sgiliau dadebru sylfaenol i achub bywydau, ac nid oedd ymarferwyr cydgysylltu a dargyfeirio ar gael yn rhwydd bob amser.

Nodwyd rhai gwelliannau yn y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i garchardai. Roedd y rheini dan gadwad yn dal i gael eu cludo mewn cerbydau glân a oedd mewn cyflwr da, a chafwyd ymdrechion sylweddol i sicrhau rhywfaint o arwahanu lle'r oedd cerbydau'n cael eu rhannu rhwng dynion a menywod neu blant. Er nad oedd digon o sylw wedi'i roi i hyn ym mhob man, roedd rhai rhanbarthau wedi gofalu am ddiogelu urddas a phreifatrwydd y rheini dan gadwad pan oeddent yn dod allan o gerbydau mewn mannau a oedd yng ngolwg y cyhoedd.

## Gwendidau wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau

Roedd rhai trefniadau ar gyfer rhyddhau rhai dan gadwad yn dal i beri pryder. Roedd y broses yn cael ei brysio'n aml ac nid oedd rhai o'r rheini dan gadwad yn cael modd i gyrraedd adref, yn cynnwys y rheini sydd ag anableddau y cynhaliwyd eu treialon yn bell oddi cartref oherwydd diffyg cyfleusterau dalfa hygyrch mewn llysoedd. Anaml y rhoddwyd gwybodaeth i bobl am asiantaethau cymorth lleol neu elusennau a allai eu helpu, yn cynnwys rhai dan gadwad a ryddhawyd o'r llys yn ddigartref.

Rydym wedi adrodd ers rhai blynyddoedd bellach ar ein pryderon am oedi cyn rhyddhau pobl a ddaeth o'r carchar yn dilyn cyfarwyddiadau gan y llys. Er gwaethaf ymdrechion gan uwch-reolwyr PECS, roedd yn siomedig bod gormod o bobl yn dal i orfod aros am gyfnodau rhy hir i'r sefydliad anfon awdurdodi eu rhyddhau, gan eu hamddifadu o'u rhyddid.



**Dalfeydd yn llys ynadon Sheffield**

# Pedwar

## Aflonyddwch cynyddol mewn dalfeydd mewnfudo



- **Gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion o aflonyddwch mewn dalfeydd mewnfudo ac arferion gwael ar gyfer adnabod y rhai dan gadwad sydd fwyaf agored i niwed.**
- **Gwelsom wrthgyferbyniadau yn yr arweinyddiaeth mewn cyfleusterau cadw tymor byr.**
- **Cafwyd gwelliannau o ran hebryngwyr i wledydd tramor.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd canolfannau symud ymaith mewnfudo (IRCs) wedi mynd yn fwy gorlawn. Un rheswm am hynny oedd y pwysau cynyddol ar boblogaeth carchardai – am fod carchardai yn dal i'w gael yn anodd darparu lleoedd, roedd mwy o wladolion tramor a gadwyd o dan bwerau mewnfudo yn cael eu trosglwyddo i IRCs. Roedd pryder ynghylch y cynnydd mewn trais a'r defnydd o rym ar draws yr IRCs, a chafwyd wyth gwrthdystiad ac achosion o aflonyddwch mewn ystad lle na welwyd ond ychydig o ddigwyddiadau o'r fath dros y degawd blaenorol.

Er mwyn cartrefu'r niferoedd uwch o bobl dan gadwad, mae wedi bod yn fwriad gan y Swyddfa Gartref greu mwy o leoedd ar y safleoedd cadw presennol a, dros y blynyddoedd nesaf, mae'n bwriadu ailagor canolfannau yn Campsfield House ger Rhydychen a Haslar yn Gosport.

## Mwy o aflonyddwch ac arferion gwael ar gyfer adnabod y rhai mwyaf agored i niwed

Roeddem wedi ymweld â dwy IRC – Yarl's Wood a Tinsley House. Roedd yr amodau byw yn weddol dda o hyd yn y ddwy, ac roedd y perthnasoedd rhwng staff a phobl dan gadwad yn gadarnhaol at ei gilydd.

Fodd bynnag, yn Yarl's Wood roedd diogelwch y rheini dan gadwad a'u mynediad at weithgareddau wedi dirywio'n sylweddol. Bu newid pendant yn yr awyrgylch ers ein hymweliad diwethaf: roedd mwy o bobl dan gadwad a mwy o wrthdystiadau, wedi'u sbarduno gan gyfnodau hirach cynyddol dan gadwad heb ddigon o gynnydd yn hynt achosion mewnfudo. Roedd hyd y cyfnodau dan gadwad yn fater a gododd hefyd yn Tinsley House: roedd tri pherson wedi'u cadw yno am fwy na blwyddyn.




**Neuadd ymweliadau yn Yarl's Wood**

Yn yr achos mwyaf difrifol o aflonyddwch yn Yarl's Wood, roedd mwy na 50 o bobl dan gadwad wedi gwrthod dychwelyd i'w celloedd ac roedd 13 wedi dianc o ganlyniad i hynny. Roedd nifer ohonynt yn rhwystredig am eu bod wedi'u cadw heb ddyddiad ar gyfer eu rhyddhau neu eu symud ymaith. Roedd gormod o lawer wedi'u cadw er bod mechnïaeth wedi'i chaniatáu iddynt, oherwydd diffyg llety cymeradwy. Yn ein harolwg, dim ond 23% o'r rheini dan gadwad a gytunodd fod staff y Swyddfa Gartref yn eu hysbysu'n gyson am hynt eu hachos.

Nid oedd y Swyddfa Gartref yn gallu darparu data diogelu cywir i Serco am y rheini a oedd dan gadwad yn Yarl's Wood. Er enghraifft, nid oeddent yn dangos lefelau risg presennol y rheini dan gadwad na'r canlyniadau i adroddiadau Rheol 35 (sy'n cael eu cwblhau gan feddygon ac yn enwi pobl dan gadwad y mae eu hiechyd yn debygol o waethygu o ganlyniad i'w cadw, sy'n synio am hunanladdiad neu sydd wedi cael eu harteithio). O ganlyniad i hyn, nid oedd staff y ganolfan yn ymwybodol bob amser o bwy oedd yn fwyaf agored i niwed o blith y rheini dan gadwad, fel na allent gynllunio a darparu gofal priodol. Roedd ymwybyddiaeth annigonol o ba rai dan gadwad a oedd yn wynebu risg ac asesiadau gwan o dan Reol 35 yn destun pryder hefyd yn Tinsley House.

Roedd menywod yn Yarl's Wood yn profi gwaeth mynediad at rai gwasanaethau nag yr oedd dynion, ac roedd y risgiau sylfaenol o gydleoli menywod a dynion yn cael eu hamlygu gan y bygythiadau yn erbyn menywod mewn iard a oedd o fewn golwg uned breswyl i ddynion. Roedd y gwaith lles yn effeithiol at ei gilydd, ond nid oedd arweinwyr wedi nodi'r angen am ddarpariaeth fwy cyson yn yr uned menywod.

Roedd nifer o'r rheini dan gadwad yn Yarl's Wood wedi cael eu lleoli'n anghyfreithlon o dan amodau cadw ar wahân cyn eu symud ymaith ar ehediadau siarter. Nid oedd hyn wedi'i seilio ar risg i'r unigolyn nac wedi'i oruchwylio'n briodol, fel y buasai'n ofynnol os oeddent wedi'u cadw o dan Reol 40 (symud oddi wrth gymdeithasu er mwyn diogelwch neu ddiogeledd).


Yn gyffredinol, roedd y seilwaith yn Yarl's Wood yn ei chael yn anodd ymdopi â'r niferoedd, a byddai pobl dan gadwad yn aml yn ymgynnull mewn coridorau, yn eistedd ar y llawr oherwydd diffyg lle ar gyfer cymdeithasu neu weithgareddau. Roedd mwy o sylw'n cael ei roi bellach i ddiogeledd ac roedd awyrgylch y ganolfan yn debycach i garchar, ar ôl gosod drysau celloedd a ffenestri seliedig gydag awyrdyllau nad oeddent yn agor.

> **Er bod y profiad i'r rhan fwyaf o'r rheini dan gadwad yn ddigonol ar hyn o bryd, aethom o Yarl's Wood gan deimlo pryder am y dirywiad yn y canlyniadau mewn canolfan a oedd yn gorfod delio â phoblogaeth gymhleth a chynyddol o bobl dan gadwad a oedd yn cael eu cadw am gyfnodau hirach.**
> **Yarl's Wood**

## Gwrthgyferbyniadau mewn cyfleusterau cadw tymor byr

Roeddem wedi arolygu cyfleusterau cadw tymor byr (STHFs) sy'n cael eu staffio a'u rhedeg yn uniongyrchol gan Lu'r Ffiniau, a Manston a safleoedd eraill gerllaw yng Nghaint, sy'n cael eu gweithredu gan nifer o wahanol ddarparwyr.

Roedd STHFs Llu'r Ffiniau wedi'u lleoli mewn pum maes awyr a 10 porthladd môr ledled y DU. Roeddem wedi arolygu'r safleoedd hyn o'r blaen ym Mawrth 2020, pan welsom fod yr amodau ffisegol yn wael yn y rhan fwyaf ohonynt, a bod diffyg brawychus o ran arweinyddiaeth. Roeddem yn falch o weld bod Llu'r Ffiniau wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn ymateb i'r arolygiad hwnnw. Ac eithrio Felixstowe a Dociau Purfleet, roedd yr holl safleoedd eraill bellach wedi'u hadnewyddu neu eu hailadeiladu. Roedd yr arweinyddiaeth yn fwy cyson ac yn canolbwyntio ar welliannau: roedd mwy o reolwyr parhaol ac roedd arweinwyr cenedlaethol Llu'r Ffiniau yn cysylltu'n aml bellach â'r rheolwyr rhanbarthol sy'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd. Wynebwyd heriau sylweddol o hyd wrth gadw'r holl safleoedd at safon weddus, a gwelsom rai gwendidau o ran diogelu ac anghysonderau yn y defnydd o rym a phwerau chwilio. At ei gilydd, fodd bynnag, roedd yr arolygiad hwn yn un calonogol a oedd yn dangos cynnydd da.



Man prosesu ym Manston

Ymwelsom â safle Western Jet Foil (WJF), Manston ac Uned Dderbyn Caint (KIU), sy'n prosesu mudwyr sy'n croesi'r Sianel mewn cychod bach, yn ystod cyfnod tawel pan oedd nifer y newydd-ddyfodiaid yn fach a dim ond ychydig gannoedd yn dod drwyddynt. Roedd y cyfleusterau yn WJF wedi gwella, gyda chawodydd a oedd yn gweithio a chyflenwadau da o ddillad glân ar gyfer y rheini a oedd wedi gwlychu wrth groesi. Roedd KIU wedi symud i safle mwy addas gyda llety gwell. Roedd safle Manston yn darparu gofal gweddol dda i'r niferoedd llai a gedwid a'r rhan fwyaf o bobl yn symud ymlaen o fewn 24 awr ar ôl cyrraedd, ac roedd gwasanaethau iechyd wedi gwella.

Er hynny, roedd yr arweinyddiaeth ym Manston yn dal i beri pryder mawr. Roedd Llu'r Ffiniau, Interforce, MTC, Mitie Care and Custody a GSA Security Solutions i gyd yn darparu gwasanaethau ar y safle, ond nid oedd y trefniadau llywodraethu'n sicrhau bod eu gwaith wedi'i gydgysylltu na bod yr arweinyddiaeth uniongyrchol ar safle'r cyfleuster cyfan yn parhau'n ddi-dor. O ganlyniad i hyn, roedd yr oruchwyliaeth a'r dadansoddi ar feysydd yn wan, a'r rheini'n cynnwys diogelu, y defnydd o rym a thrais. Roeddem ymhell o fod yn hyderus y byddai safle Manston yn rhedeg yn ddigon da wedi i'r niferoedd ailgodi. Hyd yn oed gyda'r niferoedd llai, roedd gormod o bobl yn cael eu cadw am gyfnodau hir, ac yn aml roedd rhai dan gadwad yn wynebu anhawster wrth geisio cael gwybodaeth gan staff difater. Nid oeddem yn ffyddiog bod materion lles yn cael eu nodi a'u trafod yn briodol.

## Gwelliannau o ran hebryngwyr i wledydd tramor

Roedd mwyafrif yr ehediadau siarter i symud ymaith rai dan gadwad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn rhai i Albania. Ar yr ehediad a arolygwyd gennym ni, gwelsom welliannau o ran y drefniadaeth gyffredinol, arferion staff a diwylliant. Roedd y staff yn gyfeillgar a phroffesiynol at ei gilydd, ac ni ddefnyddiwyd grym na gwregysau atal am ganol y corff, er bod y defnydd o wregysau am y canol wedi'i gofnodi ar y tri ehediad siarter blaenorol.

Gwelsom 26 o rai dan gadwad, yn ddynion i gyd, yn cael eu symud ymaith ar yr ehediad. Roedd 20 wedi dewis dychwelyd o'u gwirfodd, fel eu bod yn fwy parod i gydymffurfio ac yn haws eu rheoli wrth eu symud ymaith.

Yn ystod y gweithrediadau symud ymaith, cafwyd ymdrechion da i gwtogi amser y siwrneiau cyfan. Er bod gwasanaeth cyfieithu proffesiynol yn cael ei ddefnyddio'n gyson, nid oedd ar gael bob amser pan oedd ei angen.

# Pump

## Incwm a gwariant



## Incwm a gwariant – 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

| Incwm | £ |
|---|---|
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (carchardai a chelloedd llys) | **4,960,855** |
| Y Swyddfa Gartref (mannau cadw mewnfudo) | **352,220** |
| Y Swyddfa Gartref (HMICFRS/dalfeydd yr heddlu) | **27,655** |
| Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Tîm Comisiynu Cyfiawnder Ieuenctid (YJCT) (dalfeydd plant) | **150,558** |
| Incwm arall (Arolygiaeth Prawf EF, Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, STC, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Llu'r Ffiniau) | **45,781** |
| **Cyfanswm** | **5,537,069** |

| Gwariant | £ | % |
|---|---|---|
| Costau staff<br>(yn cynnwys staff, arolygwyr y telir ffioedd iddynt, secondeion a chostau cydarolygu/sefydliadau partneriaid, e.e. y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a chyfraniad at gymorth ysgrifenyddol i Grŵp Prif Arolygwyr Cydarolygiadau Cyfiawnder Troseddol) | **4,787,718** | **86.16%** |
| Teithio a chynhaliaeth | **460,311** | **8.28%** |
| Argraffu a phapur swyddfa ac ati | **12,338** | **0.22%** |
| Technoleg gwybodaeth a thelathrebu<br>(yn cynnwys cost gwaith darganfod ar ddull TG newydd ar gyfer y Templed Casglu Tystiolaeth presennol) | **47,376** | **0.85%** |
| Cyfieithwyr | **14,524** | **0.26%** |
| Hyfforddi a datblygu | **35,457** | **0.64%** |
| Costau eraill (yn cynnwys costau recriwtio, cynadleddau ac aelodaeth o sefydliadau proffesiynol) | **199,345** | **3.59%** |
| **Cyfanswm** | **5,557,069*** | **100%** |

* Mae'r ffigur hwn yn dangos gorwariant o £20,000. Mae hyn yn ganlyniad i ailgodi rhai taliadau hanesyddol am wasanaethau a reolir yn ganolog (fel archebu tocynnau teithio a lleoedd mewn gwesty) a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr oeddem eisoes wedi'u cronni, a hynny'n arwain at adlewyrchu rhai costau ddwywaith yn ein hadroddiadau diwedd blwyddyn.

# Chwech

## Atodiadau



# Atodiad un

## Adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024

| Sefydliad | Cyfnod arolygu | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Elmley – IRP | 13–15 Chwefror 2023 | 3 Ebrill 2023 |
| Lewes – IRP | 20–22 Chwefror 2023 | 5 Ebrill 2023 |
| Long Lartin | 5–16 Rhagfyr 2022 | 12 Ebrill 2023 |
| Whitemoor | 5–15 Rhagfyr 2022 | 12 Ebrill 2023 |
| Feltham B | 3–13 Ionawr 2023 | 25 Ebrill 2024 |
| Stoke Heath | 9–20 Ionawr 2023 | 2 Mai 2023 |
| Wayland – IRP | 20–22 Mawrth 2023 | 2 Mai 2023 |
| Stocken | 16–27 Ionawr 2023 | 16 Mai 2023 |
| Gartree | 16–26 Ionawr 2023 | 16 Mai 2023 |
| Cyfleusterau Cadw Tymor Byr Llu'r Ffin | 9–20 Ionawr 2023 | 17 Mai 2023 |
| Dalfeydd llys Swydd Bedford, Swydd Hertford a Swydd Gaergrawnt | 27 Chwefror – 11 Mawrth 2023 | 17 Mai 2023 |
| Pentonville – IRP | 11–13 Ebrill 2023 | 22 Mai 2023 |
| Birmingham | 30 Ionawr – 9 Chwefror 2023 | 30 Mai 2023 |
| Caerlŷr | 13–23 Chwefror 2023 | 30 Mai 2023 |
| Hebrwng a symud ymaith i Albania | 22–23 Chwefror 2023 | 30 Mai 2023 |
| Cyfleusterau Cadw Tymor Byr Western Jet Foil, Manston ac Uned Dderbyn Caint | 30 Ionawr – 17 Chwefror 2023 | 6 Mehefin 2023 |
| Maghaberry | 20 Medi – 6 Hydref 2022 | 16 Mehefin 2023 |
| Abertawe | 21 Chwefror – 10 Mawrth 2023 | 20 Mehefin 2023 |
| Ynys Manaw | 27 Chwefror – 10 Mawrth 2023 | 26 Mehefin 2023 |
| Preston | 7–23 Mawrth 2023 | 26 Mehefin 2023 |
| Holme House | 6–16 Mawrth 2023 | 26 Mehefin 2023 |
| Isis – IRP | 15–17 Mai 2023 | 26 Mehefin 2023 |

| Sefydliad | Cyfnod arolygu | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Moorland | 13–24 Mawrth 2023 | 10 Gorffennaf 2023 |
| Ford | 4–20 Ebrill 2023 | 10 Gorffennaf 2023 |
| Norwich – IRP | 30 Mai – 1 Mehefin 2023 | 10 Gorffennaf 2023 |
| Ynys Wyth – IRP | 5–7 Mehefin 2023 | 10 Gorffennaf 2023 |
| Cookham Wood | 4–20 Ebrill 2023 | 18 Gorffennaf 2023 |
| Risley | 12–27 Ebrill 2023 | 24 Gorffennaf 2023 |
| Canolfan Symud Ymaith Mewnfudo Tinsley House | 17 Ebrill – 5 Mai 2023 | 7 Awst 2023 |
| Grendon | 2–19 Mai 2023 | 14 Awst 2023 |
| Thorn Cross | 2–19 Mai 2023 | 14 Awst 2023 |
| Lowdham Grange | 15–26 Mai 2023 | 16 Awst 2023 |
| North Sea Camp | 22 Mai – 2 Mehefin 2023 | 30 Awst 2023 |
| Leeds – IRP | 18–20 Gorffennaf 2023 | 30 Awst 2023 |
| Dalfeydd Ilys Surrey a Sussex | 12–22 Gorffennaf 2023 | 4 Medi 2023 |
| Brinsford | 5–16 Mehefin 2023 | 11 Medi 2023 |
| Leyhill | 12–22 Mehefin 2023 | 20 Medi 2023 |
| Askham Grange | 19 Mehefin – 6 Gorffennaf 2023 | 25 Medi 2023 |
| Aylesbury – IRP | 29–31 Awst 2023 | 3 Hydref 2023 |
| Canolfan Symud Ymaith Mewnfudo Yarl's Wood | 12 Mehefin – 6 Gorffennaf 2023 | 4 Hydref 2023 |
| Dartmoor | 19 Mehefin – 6 Gorffennaf 2023 | 9 Hydref 2023 |
| Eastwood Park – IRP | 4–13 Medi 2023 | 12 Hydref 2023 |
| Bryste | 10–20 Gorffennaf 2023 | 17 Hydref 2023 |
| Lindholme | 17–27 Gorffennaf 2023 | 24 Hydref 2023 |
| Sudbury | 24 Gorffennaf – 3 Awst 2023 | 30 Hydref 2023 |
| High Down | 31 Gorffennaf – 17 Awst 2023 | 13 Tachwedd 2023 |
| Huntercombe | 14–24 Awst 2023 | 13 Tachwedd 2023 |
| Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill | 2–6 Awst 2023 | 17 Tachwedd 2023 |
| Werrington | 31 Gorffennaf – 11 Awst 2023 | 21 Tachwedd 2023 |

| Sefydliad | Cyfnod arolygu | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| Woodhill | 14–25 Awst 2023 | 28 Tachwedd 2023 |
| Littlehey | 4–14 Medi 2021 | 4 Rhagfyr 2023 |
| Swaleside | 11–21 Medi 2023 | 12 Rhagfyr 2023 |
| Hewell – IRP | 13–15 Tachwedd 2023 | 18 Rhagfyr 2023 |
| Caerwysg – IRP | 13–15 Tachwedd 2023 | 3 Ionawr 2024 |
| Dovegate | 18 Medi – 5 Hydref 2023 | 8 Ionawr 2024 |
| East Sutton Park | 25 Medi – 5 Hydref 2023 | 8 Ionawr 2024 |
| Maidstone – IRP | 20–22 Tachwedd 2023 | 15 Ionawr 2024 |
| Bure | 2–12 Hydref 2023 | 15 Ionawr 2024 |
| Ashfield | 9–20 Hydref 2023 | 15 Ionawr 2024 |
| Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc | 9–19 Hydref 2023 | 23 Ionawr 2024 |
| Highpoint | 16–27 Hydref 2023 | 30 Ionawr 2024 |
| Dalfeydd Ilys Humber a De Swydd Efrog | 27 Tachwedd – 9 Rhagfyr 2023 | 5 Chwefror 2024 |
| Maghaberry – IRP | 31 Hydref – 2 Tachwedd 2023 | 8 Chwefror 2024 |
| Magilligan – IRP | 31 Hydref – 2 Tachwedd 2023 | 8 Chwefror 2024 |
| Bedford | 30 Hydref – 9 Tachwedd 2023 | 14 Chwefror 2024 |
| Feltham B – IRP | 8–10 Ionawr 2024 | 19 Chwefror 2024 |
| Risley – IRP | 8–10 Ionawr 2024 | 19 Chwefror 2024 |
| Lowdham Grange – IRP | 8–10 Ionawr 2024 | 20 Chwefror 2024 |
| Morton Hall | 30 Hydref – 9 Tachwedd 2023 | 26 Chwefror 2024 |
| Peterborough – Menywod | 6–16 Tachwedd 2023 | 26 Chwefror 2024 |
| Wetherby | 20 Tachwedd – 7 Rhagfyr 2023 | 5 Mawrth 2024 |
| Hindley | 21 Tachwedd – 8 Rhagfyr 2023 | 12 Mawrth 2024 |

# Atodiad dau

## Adnoddau a chyfeiriadau pellach

Mae'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF yn 2023–24, y Disgwyliadau a'r fethodoleg arolygu wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r asesiadau sefydliad iach, niferoedd y pryderon a gafwyd ac a drafodwyd yn ôl y sefydliad a dadansoddiadau o'r ymatebion i arolygon ar gyfer carchardai oedolion dynion a menywod, sefydliadau plant a chanolfannau symud ymaith mewnfudo i gyd-fynd â'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan: **hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk**

Mae amcanestyniadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o boblogaeth carchardai rhwng 2022 a 2027 ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-projections-2022-to-2027**

Mae ystadegau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar ddiogelwch yn y ddalfa ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/collections/safety-in-custody-statistics**

# Atodiad tri

## Rhestr termau

**ACCT**

Asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm; proses rheoli achosion ar gyfer carcharorion sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niweidio.

**Adolygiad annibynnol o gynnydd (IRP)**

Ymweliad dilynol byr i ddarparu tystiolaeth annibynnol am y graddau y cafwyd cynnydd wrth wella triniaeth ac amodau carcharorion yn dilyn pryderon a godwyd mewn arolygiadau blaenorol.

**Amser y tu allan i'r gell**

Mae amser y tu allan i'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw amser y mae carcharorion yn ei dreulio y tu allan i'w celloedd i gymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Y sefydliad annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

**Arweinydd**

Unrhyw un sy'n gyfrifol am arwain neu reoli.

**Carchardai lleol**

Mae carchardai lleol yn cadw carcharorion sydd wedi'u hebrwng yn uniongyrchol o lys yn yr ardal leol (ar ôl eu dedfrydu neu eu remandio).

**Carcharorion ar remánd**

Carcharorion sydd heb wynebu treial eto ac sydd felly heb eu cael yn euog. Os nad oes pryderon o ran diogeledd, bydd nifer o hawliau a breintiau arbennig gan garcharor ar remánd, yn cynnwys derbyn llythyrau ac ymweliadau ychwanegol, peidio â gorfod rhannu cell â charcharor a gafodd euogfarn a pheidio â gweithio oni bai ei fod yn dewis gwneud hynny. Fel arfer, bydd carcharorion ar remánd yn cael eu cadw mewn carchardai categori B lleol.

**Cymunedau therapiwtig (TCs)**

Mae'r rhain yn darparu therapi grŵp mewn hinsawdd gymdeithasol sy'n hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol, cyfrifoldeb personol a chyfranogiad cymdeithasol. Maent yn rhoi sylw i amrywiaeth o anghenion sydd gan garcharorion, yn cynnwys perthnasoedd rhyngbersonol, rheoleiddio emosiynol, hunanreoli a lles seicolegol.

**Cynllun herio, cynorthwyo ac ymyrryd (CSIP)**

System HMPPS a ddefnyddir gan yr holl garchardai oedolion i reoli carcharorion sy'n dreisgar neu sy'n peri risg fwy o ymddwyn yn dreisgar. Mae'r carcharorion hyn yn cael eu rheoli a'u cynorthwyo drwy ddilyn cynllun sy'n cynnwys targedau unigoledig ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw CSIP yn cael ei ddefnyddio i reoli pob carcharor treisgar. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio fframwaith y CSIP i gynorthwyo dioddefwyr trais.

**Cynllun symud ymaith cynnar**

Mae'n caniatáu symud ymaith garcharorion sy'n wladolion tramor hyd at 365 o ddiwrnodau'n gynharach nag y byddent fel arall yn cael eu rhyddhau yn y DU.

**Estyn**

Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru.

**GLITEF**

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi.

**Gweithwyr allweddol**

Mae swyddogion carchar sy'n weithwyr allweddol yn ceisio dod i gysylltiad yn rheolaidd â charcharorion a enwyd.

**Gwrandawyr**

Carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i ddarparu cefnogaeth emosiynol gyfrinachol i'w cydgarcharorion.

**HMPPS**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.

**Hysbysiad Brys**

Lle mae arolygiad yn dynodi pryderon sylweddol am driniaeth neu amodau rhai dan gadwad, gall y Prif Arolygydd ddyroddi Hysbysiad Brys i'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn saith diwrnod calendr yn datgan y rhesymau dros bryderon ac yn nodi materion sydd angen eu gwella. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymrwymo i ymateb yn gyhoeddus i'r pryderon a godwyd o fewn 28 diwrnod calendr.

**IRC**

Canolfan symud ymaith mewnfudo.

**MAPPA**

Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd.

**Ofsted**

Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau.

**OPCAT**

Protocol Opsiynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Mathau Eraill o Driniaeth neu Gosb sy'n Greulon, Annynol neu Ddiraddiol.

**PECS**

Y Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion.

**PIPE (amgylchedd cynlluniedig ar sail seicoleg)**

Mae PIPEs yn fannau byw sydd wedi'u cynllunio'n benodol lle mae staff a gafodd eu hyfforddi'n arbennig mewn dealltwriaeth seicolegol yn ceisio creu amgylchedd cefnogol sy'n gallu hwyluso datblygiad carcharorion sydd ag anghenion oherwydd ymddygiad heriol.

**POM**
Rheolwr troseddwyr mewn carchar.

**ROTL**
Rhyddhau ar drwydded dros dro.

**STC**
Canolfan hyfforddi ddiogel.

**STHF**
Cyfleuster cadw tymor byr.

**Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)**
Y CQC yw'r sefydliad annibynnol sy'n rheoleiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Mae'n monitro, yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau sylfaenol o ran ansawdd a diogelwch. I gael gwybodaeth am safonau gofal y CQC a'r camau y mae'n eu cymryd i wella gwasanaethau, ewch i: http://www.cqc.org.uk

**YOI**
Sefydliad troseddwyr ifanc.

ISBN: 978-1-5286-4795-3
E03105260